PRIFYSGOL CYMRU
Y Drindod Dewi Sant
UNIVERSITY OF WALES
Trinity Saint David

# LLAWLYFR RHAGLEN ASTUDIO

# MA ASTUDIAETHAU CELTAIDD

## YSGOL Y GYMRAEG AC ASTUDIAETHAU DWYIEITHRWYDD

## Y GYFADRAN ADDYSG A CHYMUNEDAU

## 2014-2015

**CYNNWYS**

**Rhif Tud**

CYFLWYNIAD ... 1
AELODAU CYFREDOL O STAFF ... 1
Enw a Manylion Cyswllt ... 1
Cymorth Bugeiliol ... 1
GWEITHDREFNAU GWEINYDDOL ... 1
BLWYDDYN ACADEMAIDD 2014/2015 ... 2
Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS) – MANYLACH ... 2
GEIRFA FODWLAR ... 3
ASESU ... 4
Amgylchiadau Esgusodol ... 4
Anghenion Arbennig o ran asesu ... 4
Apeliadau Academaidd ... 5
Rheoliadau Asesu ... 5
Cyfrifoldebau myfyrwyr mewn perthynas â'r broses asesu ... 5
AMGYLCHEDD DYSGU RHITHWIR (ADRh) ... 6
RHAGLEN ASTUDIO ... 7
Modylau ... 9
GWYBODAETH YCHWANEGOL I FYFYRWYR SY'N DILYN Y MODWL DRWY DDYSGU O BELL ... 10
ASESU RHAN I ... 10
DYDDIADAU TERFYN GWAITH CWRS ... 10
PARATOI AC ASESU TRAETHAWD HIR/PORTFFOLIO ... 10
TRAETHAWD HIR ... 11
POLISÏAU ... 36
Polisi Presenoldeb y Brifysgol ... 36
Polisi Presenoldeb a Datganiad Moeseg yr Ysgol ... 38
YNGLŶN AG ARFER ANNHEG A LLÊN-LADRAD ... 41
Llên-ladrad: Rheoliadau, Gweithdrefnau a Chosbau ... 41
Osgoi llên-ladrad ... 41
Mathau eraill o Arfer Annheg ... 42
Y LLYFRGELL AC ADNODDAU DYSGU ... 42
SGILIAU ASTUDIO ... 43
SGILIAU GRADDEDIGION AR GYFER CYFLOGAETH ... 44
ARHOLWYR ALLANOL ... 45
CWYNION ... 46

## CYFLWYNIAD

Mae'r llawlyfr hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl i chi am eich cwrs, neu eich Rhaglen Astudio, ac am y modylau fydd ar gael i'w hastudio ym mlwyddyn academaidd 2014-2015.

Mae'r Brifysgol wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth mor lawn a chywir â phosibl, ond dylech nodi ei bod yn anochel y bydd rhai mân newidiadau yn digwydd i drefniadaeth y modylau rhwng y cyfnod cynllunio ac amser addysgu'r modylau. Byddwn yn ceisio sicrhau y bydd cyn lleied o newidiadau â phosibl, ac fe gewch ddigon o rybudd o flaen llaw os bydd unrhyw newid. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe baech yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau defnyddiol y gallem eu gwneud i'r llawlyfr yn y dyfodol.

## AELODAU CYFREDOL O STAFF

Bydd yr aelodau canlynol o staff yn addysgu ar eich Rhaglen Astudio:

**Enw a Manylion Cyswllt**

| ENW | FFÔN | E-BOST |
|---|---|---|
| Yr Athro Jane Cartwright<br>Cyfarwyddwr Rhaglen | 01570 424870 | j.cartwright@tsd.uwtsd.ac.uk |
| Dr Christine Jones<br>Pennaeth Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd | 01570 424931<br>01267 676774 | c.m.jones@tsd.uwtsd.ac.uk |
| Dr Rhiannon Ifans | 01570 424765 | r.ifans@tsd.uwtsd.ac.uk |
| Mr Andrew Currie | 01267 676846 | a.currie@tsd.uwtsd.ac.uk |

### Cymorth Bugeiliol

Clustnodir aelod o staff academaidd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd i weithredu fel cyswllt cyntaf ar gyfer materion cymorth bugeiliol. Ceir manylion am Gymorth Bugeiliol yn y llawlyfr *Rheoliadau'r Brifysgol – Canllaw i Fyfyrwyr Ôl-raddedig* a gyhoeddir yn adran y Swyddfa Academaidd ar wefan y Brifysgol: http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/rheoliadaur-brifysgol-canllawiau-ar-gyfer-myfyrwyr/

## GWEITHDREFNAU GWEINYDDOL

Mae manylion y gweithdrefnau gweinyddol wedi'u cynnwys o fewn y ddogfen *Rheoliadau'r Brifysgol – Canllaw i Fyfyrwyr Ôl-raddedig.*

Gellir cael pob ffurflen berthnasol (e.e. ffurflen cyflwyno traethawd, ffurflen traethawd hir, ffurflen gais am estyniad) yn adran y myfyrwyr ôl-raddedig ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir (ADRh) y Brifysgol a / neu ar fewnrwyd y Brifysgol.

| | | |
|---|---|---|
| Mrs Cerri Shail | 01570 424865 | c.shail@tsd.uwtsd.ac.uk |

**BLWYDDYN ACADEMAIDD 2014/2015**

Rhennir blwyddyn academaidd 2014/2015 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Sesiwn Gynefino: | Wythnos 22 Medi 2014 |
| Semestr 1: | 22/09/14 - 23/01/15 |
| Semestr 2: | 26/01/15 - 10/07/15 |
| Byrddau Arholi: | fel arfer Tachwedd, Mawrth a Mehefin yn flynyddol |

Mae'n hanfodol bwysig bod gan Gofrestrfa'r Brifysgol gofnod cywir o'ch manylion personol bob amser. Mae hefyd yr un mor bwysig sicrhau eich bod wedi cofrestru ar y Rhaglen Astudio gywir ac ar y modylau cywir. Ymhob blwyddyn academaidd, bydd angen i chi gofrestru fel myfyriwr **a** chofrestru ar y modylau y byddwch yn eu hastudio yn ystod y flwyddyn academaidd. Os na fyddwch yn cofrestru'n gywir neu'n methu â rhoi gwybod i'r Gofrestrfa am newidiadau i'ch manylion personol, yna bydd hynny'n debygol o achosi rhai os nad y cwbl o'r problemau canlynol:

- byddwn ni'n methu rhoi gwybod i chi beth sy'n digwydd;
- byddwch chi'n methu benthyca adnoddau o'r Ganolfan Adnoddau Dysgu;
- byddwch chi'n methu defnyddio'r gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth;
- byddwn ni'n methu cysylltu â chi mewn argyfwng;
- bydd oedi cyn i chi symud ymlaen o Ran I i Ran II;
- bydd oedi o ran graddio gan nad ydych wedi cwblhau digon o gredydau ar y lefel gywir;
- bydd y drefn weinyddu'n gweithredu'n aneffeithiol gan arwain at oedi yn y gwasanaeth a roddir i fyfyrwyr eraill.

**Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS) – MANYLACH**

Os y byddwch yn dod i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed fel rhan o'ch rhaglen, bydd gofyn ichi gael gwiriad gan y DBS (gwiriad Manylach). Darperir manylion pellach gan Gofrestrfa'r Brifysgol neu'r Pennaeth Ysgol.

Fel rhan o weithdrefnau pob rhaglen yng nghyswllt y DBS, fel arfer bydd gofyn i fyfyrwyr sy'n parhau â'u cwrs roi gwybod i'w Cyfarwyddwr Rhaglen ar unwaith am unrhyw newid i'w statws o ran collfarnau troseddol.

Gofynnir ichi gwblhau hunan ddatganiad ffurfiol yn ystod y cyfnod cofrestru ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, a fydd yn cadarnhau'ch statws o ran collfarnau troseddol. Cedwir y datganiad hwn o fewn y Gofrestrfa a darperir copi i'r Swyddog Gweinyddol perthnasol yn y Gyfadran sydd â chyfrifoldeb am wiriadau DBS.

## GEIRFA FODWLAR

### Rhaglen Astudio (cwrs)

Rhaglen Astudio neu gwrs yw'r casgliad o fodylau mae myfyriwr yn eu hastudio sy'n arwain at ddyfarniad arbennig.

### Modwl

Uned o weithgaredd dysgu sy'n gydlynol yn academaidd, ag iddi amcanion/deilliannau dysgu, cynnwys a chynllun asesu.

### Statws Credyd Modwl

Mae gan bob modwl statws credyd. Credyd yw'r dyfarniad a roddir i ddysgwr mewn cydnabyddiaeth o'r ffaith fod deilliannau dysgu penodedig ar lefel benodol wedi'u cyflawni a bod hynny wedi'i wirio.

### Lefel Astudio

Mae pob modwl ar lefel arbennig sy'n diffinio safon ei gynnwys academaidd. Gellir disgrifio nodweddion sylfaenol astudiaeth ar lefel Meistr, a elwir yn Lefel 7 o fewn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, fel a ganlyn:

Mae llwyddiant ar Lefel 7 yn adlewyrchu'r gallu i ail-lunio a defnyddio dealltwriaeth, methodolegau ac ymagweddau perthnasol i fynd i'r afael â sefyllfaoedd dyrys sy'n cynnwys llawer o ffactorau sy'n rhyngweithio â'i gilydd. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb am gynllunio a datblygu dulliau gweithredu sy'n cychwyn neu sy'n sail i newid neu ddatblygiad sylweddol, yn ogystal â defnyddio ymreolaeth a barn eang. Mae hefyd yn adlewyrchu dealltwriaeth o bersbectifau damcaniaethol a methodolegol perthnasol a'r modd maent yn effeithio ar eu maes astudiaeth neu'u maes gwaith.

### Disgrifiadau Lefel Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, Chwefror 2009

| Lefel | Crynodeb | Gwybodaeth a Dealltwriaeth | Cymhwyso a Gweithredu | Annibyniaeth ac Atebolrwydd |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Mae cyflawni Lefel 7 yn adlewyrchu'r gallu i ailffurfio a defnyddio gwybodaeth, methodolegau a dulliau gweithredu perthnasol i ymdrin â sefyllfaoedd anodd lle ceir sawl ffactor sy'n rhyngweithio. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb dros gynllunio a datblygu camau gweithredu sy'n cychwyn neu sy'n sail i newidiadau neu | Ailffurfio a defnyddio dealltwriaeth ymarferol, gysyniadol neu dechnolegol i greu ffyrdd ymlaen o fewn cyd-destunau lle ceir sawl ffactor sy'n rhyngweithio.<br><br>Cynnal dadansoddiad beirniadol, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, cysyniadau a damcaniaethau cymhleth i gynhyrchu cysyniadau wedi'u haddasu. | Cysyniadu ac ymdrin â sefyllfaoedd anodd lle ceir sawl ffactor sy'n rhyngweithio.<br><br>Pennu a defnyddio methodolegau a dulliau gweithredu priodol.<br><br>Dylunio a chynnal gweithgareddau ymchwil, datblygu neu strategol i lywio'r maes gwaith neu'r maes | Cymryd cyfrifoldeb dros gynllunio a datblygu camau gweithredu sy'n cychwyn neu sy'n sail i newidiadau neu ddatblygiadau sylweddol.<br><br>Arfer annibyniaeth a barn eang ar draws maes gwaith neu faes astudio sylweddol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ddatblygiadau sylweddol, yn ogystal ag arfer annibyniaeth a barn eang. Mae hefyd yn adlewyrchu dealltwriaeth o safbwyntiau damcaniaethol a methodolegol perthnasol a sut maent yn effeithio ar eu maes astudio neu eu maes gwaith.. | Deall cyd-destunau ehangach y maes astudio neu'r maes gwaith.<br><br>Deall datblygiadau cyfredol yn y maes astudio neu'r maes gwaith.<br><br>Deall gwahanol safbwyntiau damcaniaethol a methodolegol a sut maent yn effeithio ar y maes astudio neu'r maes gwaith. | astudio neu i gynhyrchu newid sefydliadol neu broffesiynol.<br><br>Cynnal gwerthusiad beirniadol o gamau gweithredu, dulliau a chanlyniadau a'u goblygiadau byrdymor a hirdymor. | Cychwyn ac arwain tasgau a phrosesau cymhleth, gan gymryd cyfrifoldeb, lle y bo'n berthnasol, dros waith a rolau eraill. |

Dylai myfyrwyr nodi bod disgwyliadau a gofynion gwaith ar Lefel 7 yn uwch na'r hyn a geir ar Lefelau israddedig 4-6, ac fe adlewyrchir hyn o fewn yr asesu ac o ran marcio asesiadau'r modylau.

**ASESU**

Ar ddechrau pob modwl, byddwch yn derbyn manylion llawn gan y tiwtoriaid am y modd y byddwch yn cael eich asesu yn y modwl hwnnw. Bydd yn cynnwys canllawiau clir am y meini prawf a ddefnyddir i farcio eich gwaith.

Os ydych wedi cofrestru ar fodylau cyfrwng Cymraeg, fel arfer bydd gofyn i chi gwblhau'r asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg. Lle bo hynny'n bosibl, ac yn amodol ar gyfyngiadau amcanion y rhaglen, gall myfyrwyr sy'n dilyn modylau a gyflwynir trwy gyfrwng y Saesneg gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg, os ydynt yn dymuno.

Byddwch yn derbyn trawsgrifiad o'ch marciau asesu ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Sylwch bod unrhyw farciau a ryddheir cyn iddynt gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd Arholi Dilyniant / Dyfarnu yn farciau amodol.

**Amgylchiadau Esgusodol**

Os ydych o'r farn y gallai amgylchiadau esgusodol fod wedi cael effaith niweidiol ar eich gallu i gwblhau gwaith cwrs neu arholiadau, dylech ddilyn gweithdrefnau'r Brifysgol o ran Amgylchiadau Esgusodol ar gyfer Darpariaeth a Addysgir, sydd i'w gweld yn adran y Swyddfa Academaidd ar wefan y Brifysgol:
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/gweithdrefnau-ar-gyfer-apeliadau-academaidd-cwynion-ac-achosion-eraill-myfyrwyr/

**Anghenion Arbennig o ran asesu**

Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig o ran asesu, eich cyfrifoldeb chi yw cydgysylltu â'r uned Gwasanaethau Myfyrwyr ynghylch yr anghenion hynny ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, fel y gellir drafftio Datganiad o Fesurau Cydadferol yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer asesu myfyrwyr ag anghenion arbennig.

Sylwch fod y cyfnod rhwng diwedd arholiadau'r haf a diwedd tymor yr haf yn gyfnod o astudio annibynnol, a dylech ddefnyddio'r cyfnod hwn i baratoi ar gyfer eich blwyddyn astudio nesaf. Byddwch yn cael mwy o fanylion gan eich Cyfarwyddwr Rhaglen.

**Apeliadau Academaidd**

Darperir gwybodaeth am sut i apelio yn y 'Weithdrefn Apeliadau Academaidd' ym Mhennod 13 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, ac mewn dogfennaeth ategol a gyhoeddir yn adran y Swyddfa Academaidd ar wefan y Brifysgol:
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/gweithdrefnau-ar-gyfer-apeliadau-academaidd-cwynion-ac-achosion-eraill-myfyrwyr/

Mae cyngor ychwanegol ar gael o Undeb y Myfyrwyr. Mae'n bwysig iawn eich bod yn nodi'n ofalus y rhesymau sy'n sail i apeliadau ac yn cyflwyno eich apêl ar y ffurflen briodol oherwydd ni ellir prosesu apeliadau anghyflawn neu anghymwys.

**Rheoliadau Asesu**

Mae'r rheolau a'r rheoliadau sy'n gysylltiedig ag asesu eich Rhaglen Astudio ar gael ym Mhenodau 6 a 7 Llawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol, ac mae copi ohono ar gael yn adran y Swyddfa Academaidd ar y wefan:
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/

**Cyfrifoldebau myfyrwyr mewn perthynas â'r broses asesu**

Fel y nodwyd yn adran 7.3(5) ym Mhennod 7 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, mae myfyrwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn:

i) Darllen ac yn deall y wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â sut y byddant yn cael eu hasesu, sut y penderfynir ar eu dyfarniad terfynol, a'r camau i'w cymryd os byddant yn cael anawsterau yn ymwneud ag asesu.
ii) Rhoi cynnig ar bob elfen asesu mewn modwl.
iii) Mynychu arholiadau a digwyddiadau asesu eraill, yn cynnwys digwyddiadau ailarholi ac ailasesu, yn ôl yr angen; a'u bod ar gael i fynychu arholiadau llafar os oes angen o fewn dyddiadau'r tymhorau neu'r semestrau a gyhoeddwyd, neu ddyddiad arall y'u hysbyswyd ohono ymlaen llaw.
iv) Cyflwyno gwaith i'w asesu yn ôl yr angen ac yn unol â'r fformat a'r dyddiad cau gofynnol.
v) Hysbysu eu Hysgol neu'r uned Gwasanaethau Myfyrwyr o unrhyw anabledd neu nam tymor hir a allai olygu bod angen darpariaethau arbennig ar gyfer asesu.
vi) Ymgyfarwyddo â diffiniad y Brifysgol o arfer annheg ac yn ymgymryd ag asesiadau mewn modd nad yw'n ceisio ennill mantais annheg.
vii) Dilyn y gweithdrefnau a nodwyd os ydynt yn wynebu amgylchiadau esgusodol neu'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad Bwrdd Arholi.
viii) Cadw copi o waith a gyflwynwyd i'w asesu lle bo hynny'n ymarferol.
ix) Darparu eu gwaith ar gyfer samplu at ddibenion arholi allanol ac er mwyn archifo.

**AMGYLCHEDD DYSGU RHITHWIR (ADRh)**

Moodle yw Amgylchedd Dysgu Rhithwir (ADRh) y Brifysgol. Defnyddir yr ADRh i gefnogi dysgu ac addysgu. Gall myfyrwyr sydd wedi **cofrestru** gael mynediad iddo o unrhyw le yn y byd trwy ddefnyddio'r rhyngrwyd a phorwr gwe.

Mae rhai o nodweddion Moodle yn caniatáu i fyfyrwyr:

- Gael mynediad i ddeunyddiau cwrs
- Hwyluso cyfathrebu rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid
- Cefnogi tasgau grŵp
- Cymryd asesiadau ar-lein gyda chyfleusterau marcio ac adborth awtomatig

Gellir defnyddio Moodle ar gyfer tasgau gweinyddu megis:

- Dangos cyhoeddiadau e.e. lleoliad darlith wedi newid
- Cyflwyno aseiniadau'n electronig
- Gweinyddu arolygon ar-lein, megis holiaduron modwl

Sut i gael mynediad iddo:

**O Abertawe:**
Ewch i http://pcydds.ac.uk
Cliciwch Cysylltiadau Cyflym (ochr chwith uchaf y sgrin)
Dewiswch Moodle o blith cysylltiadau Abertawe
Mewngofnodwch gan ddefnyddio'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair Rhwydwaith sydd yr un peth â'r hyn a ddefnyddir i gael mynediad i'r cyfrifiaduron ar y campws

Os oes rhai o'ch cyrsiau/modylau yn eisiau yn y bloc **Fy Nghyrsiau** cysylltwch â'ch **darlithwyr** i ofyn a ydynt yn defnyddio Moodle. Sylwer y gall gymryd 24 awr i ddata cofrestru gael ei fwydo i Moodle. Os cewch broblemau yn dod o hyd i adnoddau (amserlenni, nodiadau darlith, manylion aseiniadau ac ati) cysylltwch â'r **darlithydd** sy'n darparu'r cwrs/modwl. Os cewch broblemau technegol neu negeseuon gwall cysylltwch â'r **ddesg gymorth:**
Ffôn: 01792 481134
e-bost: helpdesk@smu.ac.uk
Mewn unrhyw ohebiaeth rhowch eich enw ac enw defnyddiwr eich cyfrif myfyriwr
(e.e. p123456)

**O Gaerfyrddin/Llambed/Llundain:**
Ewch i http://pcydds.ac.uk
Cliciwch Cysylltiadau Cyflym (ochr chwith uchaf y sgrin)
Dewiswch Moodle o blith cysylltiadau Caerfyrddin/Llambed/Llundain
Mewngofnodwch gan ddefnyddio'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair Rhwydwaith sydd yr un peth â'r hyn a ddefnyddir i gael mynediad i'r cyfrifiaduron ar y campws

Os oes rhai o'ch cyrsiau/modylau yn eisiau yn y bloc **Fy Nghyrsiau** cysylltwch â'ch **darlithwyr** i ofyn a ydynt yn defnyddio Moodle. Sylwer y gall gymryd 24 awr i ddata cofrestru gael ei fwydo i Moodle. Os cewch broblemau yn dod o hyd i adnoddau (amserlenni, nodiadau darlith, manylion aseiniadau ac ati) cysylltwch â'r **darlithydd** sy'n darparu'r cwrs/modwl. Os cewch broblemau technegol neu negeseuon gwall cysylltwch â'r **ddesg gymorth**:
Ffôn: 0300 500 5055
e-bost: ITServiceDesk@tsd.ac.uk
Mewn unrhyw ohebiaeth rhowch eich enw ac enw defnyddiwr eich cyfrif myfyriwr
(e.e. 0244056)

**RHAGLEN ASTUDIO**

**Manylion Rhaglen ar gyfer MA Astudiaethau Celtaidd**

**Amcanion Addysgol**

- Ennyn brwdfrydedd myfyrwyr tuag at y pwnc Astudiaethau Celtaidd a darparu maes llafur eang a fydd yn cwmpasu nifer o agweddau amrywiol ar y pwnc.
- Galluogi myfyrwyr i werthfawrogi arwyddocâd diwylliannol a chymdeithasol y Gymraeg/yr ieithoedd Celtaidd ac agweddau gwahanol ar hanes ac etifeddiaeth y rhanbarthau Celtaidd.
- Annog myfyrwyr i ddarllen a dadansoddi ffynonellau cynradd ac eilaidd yn feirniadol a gwerthfawrogi amryw o theorïau a methodolegau a ddefnyddir wrth archwilio'r gorffennol a gwerthfawrogi testunau llenyddol.
- Meithrin ystod o sgiliau perthnasol i'r pwnc ynghyd â sgiliau generig eraill, sef ystod o sgiliau sy'n werthfawr ar gyfer amryw byd o alwedigaethau gwahanol, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, sgiliau llythrennedd, sgiliau dadansoddi, sgiliau beirniadol, sgiliau ymchwilio, y gallu i feddwl yn haniaethol a'r gallu i gydweithio.
- Darparu myfyrwyr â chyfle i ymgymryd ag astudiaeth estynedig, trwyadl ac annibynnol o bwnc arbenigol o'u dewis ym maes Astudiaethau Celtaidd.
- Meithrin agwedd gadarnhaol ymhlith y myfyrwyr tuag at ddysgu ac ymchwilio'n annibynnol a sicrhau eu bod yn cymryd cyfrifoldeb am eu gwaith eu hunain a fydd yn eu paratoi ar gyfer gyrfa a/neu astudiaethau ôl-radeddig uwch.

**Deilliannau'r Rhaglen**

**Gwybodaeth a dealltwriaeth yn y maes**

- Dealltwriaeth systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sydd i raddau helaeth ar flaen y disgyblaethau amrywiol sy'n cyfrannu at Astudiaethau Celtaidd, neu'n cael eu harwain ganddynt.
- Gwybodaeth am lenyddiaeth Gymraeg (a/neu Geltaidd) ar hyd y canrifoedd ac adnabyddiaeth o ystod o destunau arwyddocaol o'r cyfnodau cynharaf hyd heddiw.
- Gwybodaeth am hanes llenyddiaeth Gymraeg (a/neu Geltaidd) ac am y ffactorau hanesyddol, cymdeithasol a deallusol sydd wedi dylanwadu ar lenyddiaeth Gymraeg (a/neu Geltaidd) ar hyd y canrifoedd.
- Gwybod sut i drin gweithiau llenyddol yn feirniadol, gan ddefnyddio geirfa dechnegol lle bo'n briodol, a thrafod eu cynnwys o safbwynt dealltwriaeth a dychymyg, nodweddion ieithyddol ac arddull, a chrefftwriaeth.
- Gwybodaeth, lle bo'n briodol, am y cysylltiadau rhwng llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth mewn ieithoedd Celtaidd eraill, ac am le testunau llenyddol Cymraeg o fewn patrymau diwylliannol rhyngwladol.
- Y gallu i ddeall sut mae pobl wedi bodoli, gweithredu a meddwl yng nghyd-destun gwahanol y gorffennol. Mae hyn yn cynnwys dod yn erbyn natur wahanol y gorffennol a'i synhwyro, a dysgu deall strwythurau, diwylliannau a systemau cred anghyfarwydd.
- Dealltwriaeth o'r problemau sy'n gynhenid yn y cofnod hanesyddol ei hun.
- Ymwybyddiaeth o ystod o safbwyntiau a'r dull o ymdopi â hyn; gwerthfawrogiad o'r ystod o broblemau sydd ynghlwm â dehongli deunydd sydd yn aml yn gymhleth, yn amwys, yn anghyson ac yn anghyflawn; ymdeimlad am gyfyngiadau

gwybodaeth a pheryglon esboniadau syml.

- Ymwybyddiaeth am swyddogaeth iaith a llenyddiaeth wrth feithrin, cynnal a datblygu hunaniaeth genedlaethol Gymreig (a/neu Geltaidd).
- Gwybodaeth am amodau cymdeithasol sy'n effeithio ar ddatblygiad y Gymraeg ac am ffyrdd o adfer a hyrwyddo'r iaith.

**Sgiliau pynciol**

- Y gallu i gydosod a chyfleu gwybodaeth am destunau llenyddol a'u trin yn feirniadol ar bapur.
- Y gallu i ystyried llenyddiaeth yn ei chyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a deallusol.
- Cydnabod nad yw pob datganiad yn gyfartal o ran dilysrwydd, bod modd eu profi, a bod haneswyr yn gweithredu ar sail rheolau tystiolaeth sydd, er eu bod hwythau eu hunain yn cael eu gwerthuso'n feirniadol, hefyd yn rhan o integredd ac aeddfedrwydd deallusol.
- Gwerthfawrogi cymhlethdod ac amrywiaeth sefyllfaoedd, digwyddiadau a meddylfryd y gorffennol.
- Y gallu i ddarllen a dadansoddi testunau a ffynonellau gwreiddiol eraill, yn feirniadol ac yn empathig, ar yr un pryd â mynd i'r afael â chwestiynau am genre, cynnwys, safbwynt a phwrpas.
- Sgiliau technegol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth, megis cynhyrchu llyfryddiaethau a chyfeirnodi ffynonellau argraffedig ac electronig mewn dull cyson a safonol.

**Sgiliau generig**

- Y gallu i lunio dadleuon cyson a rhesymegol mewn dull argyhoeddiadol.
- Y gallu i ddysgu'n annibynnol, sydd ei angen ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
- Eu bod yn gallu ymateb yn feirniadol, gan ddadansoddi a chrynhoi dadleuon a barn pobl eraill.
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac i gasglu gwybodaeth mewn dull trefnus a phwrpasol o amryw o ffynonellau, ei gwerthuso'n feirniadol, gan ddethol elfennau arwyddocaol a dilys; a'i chyflwyno mewn dull rhesymegol ac ystyrlon.
- Sgiliau trefnu yng nghyswllt tasgau a osodir, gan gynnwys rheoli amser yn effeithiol.
- Bod sgiliau priodol ganddynt i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gan gynnwys y gallu i gasglu, asesu a defnyddio gwybodaeth o ffynonellau electronig.
- Y gallu i fynegi'u hunain yn raenus yn ysgrifenedig yn y Gymraeg.

**Modylau**

**MA Astudiaethau Celtaidd**

Fel arfer rhaid i bob myfyriwr Meistr ddilyn 180 credyd ar Lefel 7, 120 credyd yn Rhan I a 60 yn Rhan II. Nodir gwerth credyd pob modwl ym manylion y modylau.

**RHAN I (120 credyd)**
Bydd myfyrwyr llawn amser yn cymryd y 120 credyd i gyd yn ystod eu blwyddyn gyntaf o astudio, sef 60 credyd o fodylau gorfodol a 60 credyd o fodylau dewisol.

Bydd myfyrwyr rhan amser yn cymryd naill ai 40 credyd y flwyddyn am dair blynedd neu 60 credyd y flwyddyn am ddwy flynedd. Hefyd bydd gofyn i fyfyrwyr rhan amser gymryd y tri modwl gorfodol ar hyd cyfnod eu Gradd Meistr, ond ni fydd gofyn iddynt gymryd y tri modwl i gyd yn eu blwyddyn gyntaf.

Mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft os ydy myfyriwr eisoes wedi cwblhau modwl *Methodoleg Astudio ac Ymchwilio* fel rhan o gymhwyster MA blaenorol neu os oes PhD ganddo eisoes, gellir hepgor y gofyniad hwn yn ôl disgresiwn y Cyfarwyddwr Rhaglen a gall y myfyriwr gymryd 40 credyd o fodylau gorfodol ac 80 credyd o fodylau dewisol.

Mae'r holl fodylau iaith yn fodylau dewisol. Bydd y modwl/modylau a gymerant yn ddibynnol ar eu gwybodaeth flaenorol o'r iaith. Gellir astudio'r radd MA Astudiaethau Celtaidd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Dylai myfyrwyr sy'n dymuno ysgrifennu eu haseiniadau yn Saesneg ofyn am gopi o'r *MA Celtic Studies Handbook*.

**RHAN II (60 credyd)**
Mae Rhan II yn cynnwys un modwl 60 credyd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhan I: Modylau gorfodol (60 credyd)** | | | |
| Semestr 1 a 2 | CYCS7014C | Methodoleg Astudio ac Ymchwilio | 20 credyd |
| Semestr 1 | CYCS7002C | Y Celtiaid: o'r Cychwyn i'r Cyfnod Modern | 20 credyd |
| Semestr 2 | CYCS7015C | Y Mabinogi | 20 credyd |
| **Rhan I: Modylau dewisol (60 credyd)** Bydd angen dewis tri o'r pedwar modwl dewisol isod: | | | |
| Semestr 1 | CYCS7004C | Bywyd Gwerin Cymru | 20 credyd |
| Semestr 2 | CYCS7005C | Y Ferch yn yr Oesoedd Canol: Ffynonellau o'r Rhanbarthau Celtaidd | 20 credyd |
| Semestr 1 | CYCS7007C | Santesau Cymru | 20 credyd |
| Semestr 2 | CYCS7016C | Cymdeithaseg yr Iaith Gymraeg | 20 credyd |
| **Rhan II: Modwl gorfodol (60 credyd)** | | | |
| **Ar gyfer myfyrwyr a gofrestrodd ar Ran II cyn 31.8.2013** | | | |
| Semestr 1, 2 a 3 | CYCS7010C | Traethawd Hir | 60 credyd |
| **Ar gyfer myfyrwyr a gofrestrodd ar Ran II o 1.9.2013 ymlaen** | | | |
| Semestr 1, 2 a 3 | CYCS7022C | Traethawd Hir | 60 credyd |

Anogir myfyrwyr y radd MA Astudiaethau Celtaidd i wneud eu holl waith trwy gyfrwng y Gymraeg. Eto i gyd, caniateir i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg ddewis astudio un modwl cyfrwng Saesneg o'r radd MA Celtic Studies os dymunant. Gellir cael rhagor o fanylion am y modylau cyfrwng Saesneg trwy gysylltu â Chyfarwyddwr y Rhaglen.

Mae manylion y modylau yn gywir ar 1 Medi 2014, ac ni fyddant fel arfer yn newid yn ystod y flwyddyn. Os digwydd y bydd angen i'r Ysgol wneud newidiadau i'r manylion hyn yn ystod y flwyddyn, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig.

## GWYBODAETH YCHWANEGOL I FYFYRWYR SY'N DILYN Y MODWL DRWY DDYSGU O BELL

Os ydych yn dilyn y rhaglen astudio hon drwy ddysgu o bell, ceir gwybodaeth gyffredinol ychwanegol am astudio drwy'r dull hwn yn *Rheoliadau'r Brifysgol - Canllaw i Fyfyrwyr Dysgu o Bell*. Gwelir y fframwaith rheoliadau ar gyfer dysgu o bell ym Mhennod 5 y *Llawlyfr Ansawdd Academaidd*.

## ASESU RHAN I

Asesir pob modwl yn annibynnol mewn ffyrdd a fydd yn adlewyrchu amcanion a deilliannau dysgu'r modwl a'r rhaglen astudio fel cyfanwaith a'r strategaethau dysgu ac addysgu a ddefnyddir o fewn y modwl.

Rhoddir manylion yr aseiniadau, canllawiau ar amcanion yr asesiad a'r meini prawf a ddefnyddir wrth farcio ar ddechrau pob modwl.

Ceir gwybodaeth lawn am ddosbarthiadau canlyniadau a rheoliadau dilyniant ym Mhennod 6 y *Llawlyfr Ansawdd Academaidd*.

Ceir manylion yr hyn a ystyrir yn 'gynnydd boddhaol' ym Mhennod 6 y *Llawlyfr Ansawdd Academaidd*. I gael gwybodaeth bellach am 'gynnydd' gweler *Rheoliadau'r Brifysgol – Canllaw i Fyfyrwyr Ôl-raddedig*.

Fel arfer bydd yr holl waith yn cael ei farcio o fewn y cyfnod a gytunwyd gan y Brifysgol sef 20 diwrnod gwaith yn ystod y tymor i ddychwelyd gwaith cwrs a asesir. Bydd y cydlynydd modwl yn cysylltu â chi os na fydd hyn yn bosibl.

## DYDDIADAU TERFYN GWAITH CWRS

Bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn eich hysbysu o ddyddiadau terfyn gwaith cwrs.

Sylwer ar gyfer modylau â nifer o ddyddiadau terfyn asesiadau a / neu arholiadau, rhoddir dyddiadau terfyn gwaith cwrs a gwybodaeth lawn am arholiadau yn y llyfryn gwybodaeth am fodwl a roddir i fyfyrwyr ar ddechrau'r modwl. Rhoddir gwybodaeth bellach am asesu ar gyfer myfyrwyr dysgu o bell yn y *Llawlyfr Ansawdd Academaidd* (Pennod 5) a *Rheoliadau'r Brifysgol - Canllaw i Fyfyrwyr Dysgu o Bell*.

## PARATOI AC ASESU TRAETHAWD HIR/PORTFFOLIO

Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd a dderbynnir i Ran II gyflwyno traethawd hir/portffolio heb fod yn fwy na 15,000 o eiriau neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny. <u>Nid</u> yw nifer y geiriau'n cynnwys atodiadau (os oes rhai), troednodiadau angenrheidiol, y datganiadau a gosodiadau ffurfiol na'r llyfryddiaeth a'r mynegai. Gall yr atodiadau fod yn fan i osod data crai. Dylid nodi nad oes rheidrwydd ar arholwyr i ddarllen yr atodiadau wrth arholi darn o waith.

Os ydy'n amlwg bod darn o waith yn fwy na nifer y geiriau a ganiateir, dylai'r myfyriwr drafod camau golygu gyda'i oruchwylwyr cyn ei gyflwyno.

Y cod ar gyfer y modwl traethawd hir/portffolio yw: CYCS7022C.

**TRAETHAWD HIR**

Disgwylir y bydd myfyrwyr sy'n cyrraedd yr elfen traethawd hir o fewn Rhaglen Astudio Meistr wedi caffael ac ymarfer sgiliau ymchwil perthnasol i'r modylau a astudir. Neilltuir goruchwyliwr ar gyfer y myfyrwyr a fydd yn eu cynghori ar faterion yn codi ar amrywiol adegau o'r prosiect ymchwil.

Yn ychwanegol at gyflwyno dau gopi caled o'r traethawd hir fel sy'n ofynnol gan y Brifysgol, rhaid i fyfyrwyr gyflwyno fersiwn electronig. Dylai'r fformat amlgyfrwng a ddewisir gael ei gymeradwyo gan Gyfarwyddwr y Rhaglen. Gellir storio'r fersiwn electronig maes o law mewn cadwrfa sefydliadol, gyda'r cynnwys ar gael ar y We. Hysbysir myfyrwyr y bydd "hawl agored i weld" y traethawd hir wedyn, h.y. y bydd ar gael i bawb i'w ddefnyddio yn unol â hawlfraint a hawliau defnyddwyr olaf. Ceir gwybodaeth bellach am sut y dylid cyflwyno traethodau hir yn *Rheoliadau'r Brifysgol – Canllaw i Fyfyrwyr Ôl-raddedig*.

Sylwer os hoffech raddio ym mis Gorffennaf, dylech gyflwyno'ch traethawd hir ddim hwyrach na 1 Ebrill er mwyn sicrhau bod yr holl waith marcio a gweithdrefnau arholi'n cael eu cwblhau mewn da bryd. Fel arfer bydd traethodau hir Meistr yn cael eu marcio o fewn y cyfnod amser a gytunwyd gan y Brifysgol sef 30 diwrnod gwaith.

Ceir manylion cyfrifoldebau'r myfyriwr a'r hawl i gymorth gyda thraethawd hir ym Mhennod 7 y *Llawlyfr Ansawdd Academaidd*.

| | | |
|---|---|---|
| **CÔD Y MODWL:** | **CYCS7014C** | |
| **TEITL:** | **Methodoleg Astudio ac Ymchwilio** | |
| **DYDDIAD:** | **16/07/2012** | |
| **CYDLYNYDD MODWL:** | **Dr Christine Jones** | |
| **LEFEL:** | **7** | |
| **CREDYDAU:** | **20** | |
| **DULLIAU ADDYSGU:** | **Dysgu o bell:** | **100%** |
| | ***Dysgu cyfeiriol*** | ***90%*** |
| | ***Tiwtorialau e-bost, ffôn Skype a/neu wyneb yn wyneb*** | ***10%*** |
| **CÔD JACS:** | **Q561** | |

---

**AMCAN(ION)**

- Darparu myfyrwyr ôl-raddedig â chwrs cynefino a fydd yn cwmpasu'r sgiliau astudio ac ymchwilio a fydd yn angenrheidiol ar hyd eu rhaglen MA, yn cynnwys mireinio'u sgiliau ysgrifennu academaidd a chydnabod ffynonellau llyfryddol.

**DEILLIANNAU DYSGU**

Erbyn diwedd y modwl hwn dylai myfyrwyr allu:

- cynhyrchu darnau o waith ysgrifenedig sy'n gydlynol, yn ddeallus, yn llawn gwybodaeth;
- arddangos eu bod yn gallu ysgrifennu mewn arddull gryno a disgybledig;
- gwerthuso a chloriannu'n feirniadol ffynonellau eilaidd perthnasol (yn cynnwys llyfrau a gyhoeddwyd a ffynonellau ar y we);
- arddangos eu bod yn meddu ar wybodaeth estynedig ynghylch sut i gynllunio traethawd a chydnabod ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd yn gywir.

**CYNNWYS**

Bydd y modwl hwn yn ailgyflwyno myfyrwyr i ysgrifennu academaidd, yn helpu mireinio'u techneg ysgrifennu a'u darparu â'r sgiliau angenrheidiol i gwblhau'u cwrs ôl-raddedig yn llwyddiannus. Bydd yn canolbwyntio ar gyfres o sgiliau astudio ac ymchwilio defnyddiol ac yn annog myfyrwyr i ysgrifennu mewn dull trefnus a disgybledig.

Anogir myfyrwyr i ddarllen yn eang ym maes Astudiaethau Celtaidd a dewis cyfrol academaidd a gyhoeddwyd yn ddiweddar i'w hadolygu. Bydd gofyn iddynt gloriannu'r cyhoeddiad yn feirniadol a chynhyrchu adolygiad cytbwys a threfnus, gan ddychmygu eu bod yn anelu at anfon eu hadolygiad at gylchgrawn academaidd penodol.

Bydd myfyrwyr hefyd yn gwneud arolwg o'r defnydd o wyddoniaduron mewn ymchwil academaidd, a bydd gofyn iddynt ysgrifennu cofnod cryno a llawn gwybodaeth ar gyfer gwyddoniadur, gan lynu'n dynn at y cyfyngiad o ran nifer o eiriau ac arddull y gwyddoniadur a ddewiswyd.

Yna darperir testun traethawd a disgwylir i'r myfyriwr ymchwilio'r pwnc, llunio llyfryddiaeth lawn yn defnyddio *Llawlyfr Cyfeirnodi'r radd MA mewn Astudiaethau Celtaidd* ynghyd â

chynllun traethawd cryno yn amlinellu strwythur y traethawd a'r prif bwyntiau i'w trafod ynddo.

Mae ffynonellau ar y we yn dod yn fwyfwy hanfodol i'r ymchwilydd effeithiol. Fodd bynnag, er bod llawer o wefannau'n offer academaidd defnyddiol, mae potensial gan eraill i osod peryglon i'r myfyriwr ymchwil.  Gofynnir i fyfyrwyr wneud arolwg o ystod o wefannau yn eu maes academaidd a chynhyrchu gwerthusiad beirniadol o bum gwefan berthnasol efallai y byddant yn eu defnyddio neu wedi'u defnyddio, yn ystod eu hastudiaethau ôl-raddedig.  Fe'u hanogir i gymharu a chyferbynnu'r pum gwefan, gan drafod eu dibynadwyedd, eu nodweddion academaidd, peryglon posibl a rhwyddineb eu defnyddio, yn ogystal â'u cryfderau.

**ASESU**

| | |
|---|---|
| Adolygiad llyfr (1,250 o eiriau) | 25% |
| Erthygl gwyddoniadur (1,250 o eiriau) | 25% |
| Cynllun traethawd a llyfryddiaeth (1,250) | 25% |
| Adolygu pum gwefan (1,250 o eiriau) | 25% |

*Aseiniadau enghreifftiol:*
Adolygiad ar gyfer *Studia Celticae* o lyfr Patrick Sims-Williams, *Irish Influence on Medieval Welsh Literature*, Oxford: Oxford University Press, 2011.
Erthygl gwyddoniadur ar 'Bendigeidfran' ar gyfer John Davies *et al* (goln.) *Gwyddoniadur Cymru yr Academi Gymreig*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2008.
Cynllun traethawd a llyfryddiaeth ar gyfer y traethawd canlynol: Gwleidydd ynteu offeiriad - beth oedd swyddogaeth y derwydd adeg yr Hen Geltiaid?
Arolwg beirniadol o bum gwefan ar bwnc penodol ym maes Astudiaethau Celtaidd.

**LLYFRYDDIAETH**

**Hanfodol**


Anon., *New Hart's Rules*, Oxford: Oxford University Press, 2005.
Anon., *MHRA Style Book: notes for authors, editors and writers of theses*, London: Modern Humanities Research Association, 1991.
Bell, J. *Doing Your Research Project: a guide for first-time researchers in education, health and social science*, Milton Keynes: Open University Press, 2005.
Hart, C. *Doing Your Masters Dissertation*,London: Sage Publications Ltd, 2004.
Pears, R. *Cite them Right: the essential guide to referencing and plagiarism,* Newcastle upon Tyne: Pear Tree Books, 2005.
Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd, *Llawlyfr Cyfeirnodi'r radd MA Astudiaethau Celtaidd*, Llanbedr Pont Steffan, 2011.


**Argymhellir**


Allison, B. *Research Methods*, Leicester: De Montford University, 1993.
Creswell, J.W. *Research Design: qualitative, quantative, and mixed methods approaches*, London: Sage Publications Ltd., 2003.
Davies, J. *et al.* (goln.) *Gwyddoniadur Cymru yr Academi Gymreig*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2008.
Ifans, Rh. *Y Golygiadur,* Aberystwyth: Cymdeithas Llyfrau Ceredigion, 2006.
Keay, J. and Keay, J. (eds.) *Collins Encyclopaedia of Scotland*, London: Harper Collins, 2000.
Lewis, R. *How to Manage Your Study Time*,Cambridge: National Extension College, 1994.
Murray, R. *How to Write a Thesis,* Maidenhead: Open University Press, 2002.
Rigg, G.  *A Gentle Guide to Research Methods*, Maidenhead: Open University Press, 2007.

Ritter, R.M. (ed.) *The Oxford Style Manual,* Oxford: Oxford University Press, 2003.
Sieber, J.E. *Planning Ethically Responsible Research: a guide for students and internal review boards*, Newbury Park, California: Sage Publications, 1992.
Snyder, C.A. *Early Peoples of Britain and Ireland: an encyclopedia*, Oxford: Greenwood Publishing, 2008.
Stephens, M. (gol.) *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru,* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997.
Wolcott, H.F. *Writing up Qualitative Research,* Newbury Park, California, London: Sage Publications, 1990.

**Gwefannau:**

http://www.mhra.org.uk/|Publications/Books/StyleGuide Modern Humanities Research Association Style Guide
http://www.vtstutorials.co.uk/ Virtual Training Suite, Developing Internet Research Skills

| | |
|---|---|
| **CÔD Y MODWL:** | **CYCS7002C** |
| **TEITL:** | **Y Celtiaid: o'r Cychwyn i'r Cyfnod Modern** |
| **DYDDIAD:** | **16/07/2012** |
| **CYDLYNYDD MODWL:** | **Dr Christine Jones** |
| **LEFEL:** | **7** |
| **CREDYDAU:** | **20** |
| **DULLIAU ADDYSGU:** | **Dysgu o bell: 100%**<br>***Dysgu cyfeiriol 90%***<br>***Tiwtorialau e-bost, ffôn, Skype a/neu wyneb yn wyneb 10%*** |
| **CÔD JACS:** | **Q510** |

---

**AMCAN(ION)**

- Sicrhau bod gan fyfyrwyr ddealltwriaeth feirniadol o gyd-destun a chefndir ehangach tarddiad, datblygiad hanesyddol a nodweddion y cymdeithasau Celtaidd.
- Galluogi myfyrwyr i asesu a gwerthuso'n feirniadol ddehongliadau amrywiol yng nghyswllt hanes y Celtiaid.

**DEILLIANNAU DYSGU**

Erbyn diwedd y modwl hwn dylai myfyrwyr allu:

- dehongli a gwerthuso'n feirniadol tarddiad y Celtiaid ynghyd â'u hanes, eu hieithoedd a'u diwylliant;
- adnabod gyda manylder dadansoddol ddatblygiadau diwylliannol allweddol yng nghyswllt y Celtiaid a gosod y rhain yn eu cyd-destun hanesyddol a daearyddol;
- gwerthuso'n feirniadol ystyron 'Celt' a 'Cheltaidd', sy'n amrywio'n fawr dros amser a lleoliad, ac arddangos sut mae'r rhain wedi newid.

**CYNNWYS**

Man cychwyn y modwl yw trafodaeth ar bwy yw'r 'Celtiaid'a tharddiad yr Hen Geltiaid Cyfandirol. Ystyrir eu crefydd a'u credoau ynghyd â'u cynnydd a'u cwymp. Yna edrychir ar darddiad canoloesol y Celtiaid ac olrheinir hanes y gwledydd Celtaidd diweddar (Llydaw, Cernyw, Iwerddon, Manaw, Yr Alban) tan iddynt gael eu gorchfygu a'u hymgorffori o fewn gwladwriaethau Seisnig a Ffrengig yn y ddeunawfed ganrif. Rhan olaf y modwl yw trafodaeth ar ddirywiad ac adfywiad modern y Celtiaid ac yn y rhan hon ceir golwg gyffredinol ar nodweddion pob iaith a'r defnydd ohonynt ar hyd y blynyddoedd. Trwy gydol y modwl, ac yn enwedig yn y rhan hon, ystyrir y drafodaeth barhaus ymhlith ysgolheigion am Geltigrwydd y gorffennol a Cheltigrwydd cyfoes. I gloi, ceir asesiad o'r 'gwir / anwir' a geir mewn canfyddiadau / camganfyddiadau a stereoteipiau cyffredin yng nghyswllt pobloedd Celtaidd.

**ASESU**

**Gwaith Cwrs 100%**

Un aseiniad ysgrifenedig 5,000 o eiriau

*Aseiniad enghreifftiol:*
Gan ddefnyddio mapiau i gefnogi eich ateb, dadansoddwch darddiad y Celtiaid yn Ewrop. Rhowch sylw penodol i theorïau diweddar ynghyd â thrafodaethau ym maes geneteg.

**LLYFRYDDIAETH**

## Hanfodol


Aldhouse-Green, M. *Caesar's Druids: Story of an Ancient Priesthood,* New Haven: Yale University Press, 2010.
Cunliffe, B. *The Celts: A Very Short Introduction,* Oxford:Oxford University Press, 2003.
Cunliffe, B. *The Druids: A Very Short Introduction,* Oxford: Oxford University Press, 2010.
Cunliffe, B. & Koch, J. (eds.) *Celtic from the West,*Oxford: Oxbow Books, 2010.
Davies, J. *Y Celtiaid*, Caerdydd: Hughes a'i fab, 2001.
Davies, R.R. *The First English Empire: Power and Identities in the British Isles,* Oxford: Oxford University Press, 2000.
Durkacz, V. *The Decline of the Celtic Languages,* Edinburgh: John Donald Publishers, 1996.
Evans, D.E. *Gorchest y Celtiaid yn yr Hen Fyd*, Abertawe: Prifysgol Abertawe, 1975.
Green, M. (ed.) *The Celtic World*, London: Routledge, 1996.
Oppemheimer, S. *The Origins of the British*, London: Constable and Robinson, 2006.
Pittock, M. *Celtic Identity and the British Image*, Manchester: Manchester University Press, 1999.
Russell, P. *An Introduction to the Celtic Languages*, London: Longman, 1995.
Thomas, G. *Duwiau'r Celtiaid*, (Llyfrau Llafar Gwlad 24), Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1992.


## Argymhellir


Ball, M.J. *et al. Celtic Linguistics: Ieithyddiaeth Geltaidd. Readings in the Brythonic Languages. A Festschrift for T. Arwyn Watkins*, Amsterdam Studies in the Theory and History of Linguistic Science, Series IV, Current Issues in Linguistic Theory, 68, Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins, 1990.
Davies, R.R., *Dominion & Conquest: The Experience of Ireland, Scotland & Wales*, Cambridge: Cambridge University Press, 1990.
Haywood, J. *The Historical Atlas of the Celtic World*, London: Thames & Hudson Ltd., 2009.
Hutton, R. *Blood and Mistletoe: The History of the Druids in Britain*, New Haven: Yale University Press, 2009.
James, S. *The Atlantic Celts: Ancient People or Modern Invention,* London: British Museum Press, 1998.
Jones, M. *The Creation of Brittany: A Late Medieval State*, London: Hambledon Press, 1988.
Lynch, M. *The Oxford Companion to Scottish History*, Oxford: Oxford University Press, 2001.
MacAuley, D. *The Celtic Languages,* Cambridge: Cambridge University Press, 1992.
Mewes, W. *Discovering the History of Brittany*, Axbridge: Red Dog Books, 2006.
Morse, M.A. *How the Celts Came to Britain: Druids, Ancient Skulls and the Birth of Archaeology,*Stroud: Tempus, 2005.
Nicholls, K.W. *Gaelic and Gaelicized Ireland in the Middle Ages*, Lilliput Press: Dublin, 2003.
Payton, P. *Cornwall's History: an Introduction,* Redruth: Tor Mark Press, 2002.
Piggott, S. *The Druids*, London: Thames and Hudson, 1968.
Sims-Williams, P. 'Celts and Celto Sceptism', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 36 (1998), 1-35.
Sims-Williams, P. 'The Visionary Celt' *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 11(1986), 71-96.
Sykes, B. *Saxons, Vikings and Celts. The genetic roots of Britain and Ireland*, New York & London: WW Norton & Co., 2006.

| | | |
|---|---|---|
| **CÔD Y MODWL:** | **CYCS7015C** | |
| **TEITL:** | **Y Mabinogi** | |
| **DYDDIAD:** | **16/07/2012** | |
| **CYDLYNYDD MODWL:** | **Dr Jane Cartwright** | |
| **LEFEL:** | **7** | |
| **CREDYDAU:** | **20** | |
| **DULLIAU ADDYSGU:** | **Dysgu o bell:** | **100%** |
| | ***Dysgu cyfeiriol*** | ***90%*** |
| | ***Tiwtorialau e-bost, ffôn a/neu wyneb yn wyneb*** | ***10%*** |
| **CÔD JACS:** | **Q561** | |

---

**AMCAN(ION)**

- Darparu myfyrwyr â dealltwriaeth systematig o gynnwys, cyd-destun, a phwysigrwydd diwylliannol a hanesyddol *Pedeir Keinc y Mabinogi.*

**DEILLIANNAU DYSGU**

Erbyn diwedd y modwl hwn dylai myfyrwyr allu:

- arddangos bod gwybodaeth estynedig ganddynt o gynnwys, arddull a strwythur Pedeir Keinc y Mabinogi;
- gwerthuso'n feirniadol ymchwil o'r gorffennol ac ymchwil cyfredol ar y Mabinogi, datblygu'u beirniadaethau'u hunain a, lle bo'n briodol, cynnig damcaniaethau newydd;
- dadansoddi'n feirniadol ystod o themâu yn gysylltiedig â'r casgliad hwn o straeon yr Oesoedd Canol (e.e. dyddiad, awduraeth, cymeriadau, perfformio ar lafar);
- arddangos dealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd diwylliannol a hanesyddol y straeon a'u gosod yn eu cyd-destun llenyddol a hanesyddol ehangach.

**CYNNWYS**

Bydd y modwl hwn yn cyflwyno myfyrwyr i ryddiaith Cymraeg Canol wrth astudio pedair chwedl ryddiaith frodorol yn fanwl, sef *Pedeir Keinc y Mabinogi.* Gosodir y chwedlau yng nghyd-destun ehangach yr un chwedl ar ddeg a adwaenir fel y Mabinogi(on), a thrafodir y math o destunau rhyddiaith oedd ar gael yn y Gymraeg yn yr Oesoedd Canol. Yna caiff myfyrwyr eu cyflwyno i gynnwys naratif y chwedlau gan ystyried materion yn ymwneud â dyddiad, trosglwyddo llawysgrifau, awduraeth, motiffau llenyddol, arddull a strwythur. I ba raddau y mae'n bosibl defnyddio tystiolaeth ieithyddol a hanesyddol i ddyddio'r chwedlau? A oes tystiolaeth sy'n awgrymu eu bod yn perthyn i orffennol cyn Gristnogol? Pa ddamcaniaethau a gynigiwyd ynghylch awduraeth y *Pedeir Keinc*,ac i ba raddau y maent yn arddangos dylanwadau Celtaidd a/neu Normanaidd? Beth yw'r berthynas rhwng y ceinciau gwahanol â'i gilydd ac a ydynt yn cynnwys unrhyw dystiolaeth o draddodiadau coll: bydd myfyrwyr yn ystyried eu perthynas â barddoniaeth gynnar a thrioedd yr Oesoedd Canol, yn ogystal â'u cysylltiadau Gwyddelig. Bydd y modwl hefyd yn canolbwyntio ar nifer o gwestiynau ymchwil ynghylch nodweddion arddull a phwysigrwydd trosglwyddiad a pherfformiad llafar. Disgwylir i fyfyrwyr ymgyfarwyddo ag ymchwil blaenorol a chyfredol ar y Mabinogi a gwerthuso'r deunydd hwn yn feirniadol, gan ddefnyddio menter a'r gallu i ddysgu'n annibynnol wrth iddynt symud drwy'r modwl dysgu o bell. Trafodir amryw o

gyfieithiadau Saesneg o'r Mabinogi, yn ogystal â'r diweddariad ac addasiadau modern, a rhoddir ystyriaeth i etifeddiaeth ddiwylliannol y Mabinogi.

**ASESU**

**Gwaith cwrs 100%**

Gwerthfawrogiad beirniadol o ddarn o un o'r ceinciau a ddewiswyd gan y darlithydd – tua 1,000 o eiriau (20%)

Un traethawd tua 4,000 o eiriau (80%)

*Aseiniadau enghreifftiol:*
Dadansoddwch y darn canlynol o *Pedeir Keinc y Mabinogi*. Yn eich gwerthfawrogiad dylech ystyried arwyddocâd yr adran hon o'r chwedlau, ei chyd-destun, arddull, strwythur, cymeriadaeth a motifau llenyddol.
Gwerthuswch yn feirniadol y prif ddamcaniaethau a gynigiwyd ynghylch awduraeth *Pedeir Keinc y Mabinogi*. A gytunech mai Gwenllïan ferch Gruffudd ap Cynan a 'ysgrifennodd' y *Pedeir Keinc*?

**LLYFRYDDIAETH**

**Hanfodol**


Charles-Edwards, T.M. 'The date of the Four Branches of the Mabinogi', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*,(1971), 263-98.
Davies, S. *Pedeir Keinc y Mabinogi*,Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1989
Davies, S. *Crefft y Cyfarwydd*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995
Davies, S. 'Written text as performance: the implications for Middle Welsh prose narratives', in Huw Pryce (ed.), *Literacy in Medieval Celtic Societies*, Cambridge: Cambridge University Press, 1998, pp. 133-48.
Hughes, I. (gol.) *Math Uab Mathonwy*, Aberystwyth: Prifysgol Cymru Aberystwyth, 2000
Huws, D. *Medieval Welsh Manuscripts*, Cardiff: University of Wales Press and the National Library of Wales, 2000
Ifans, D. a Ifans, Rh. *Y Mabinogion: diweddariad*, Llandysul: Gomer, 1995
Simms-Williams, P. 'The submission of Irish kings in fact and fiction: Henry II, Bendigeidfran and the dating of the Four Branches', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 6 (1991), 31-61
Williams, I. (gol.) *Pedeir Keinc y Mabinogi*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1930


**Argymhellir**


Bollard, J.K. 'The structure of the Four Branches of the Mabinogi', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1974-5, 250-76
Bollard, J.K. (trans.) and Anthony Griffiths (photography) *The Mabinogi: legend and landscape of Wales*, Llandysul: Gomer, 2006
Breeze, A. *Medieval Welsh Literature*, Dublin: Four Courts Press, 1997
Bromwich, R. (ed.) *Trioedd Ynys Prydein* (3rd ed.), Cardiff: University of Wales Press, 2006
Byfield, C.E. 'Character and conflicts in the *Four Branches of the Mabinogi*', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 40 (1993), 51-72.
Charles-Edwards, T.M. 'The textual tradition of Medieval Welsh Prose tales', in Bernhard Maier, Stefan Zimmer and Christiane Batke (eds), *150 Jahre "Mabinogion" – Deutsch-Walisische Kulturbeziehungen* Tübingen: Max Niemeyer, 2001, 23-39.
Ellis, T.P. 'Legal references, terms and conceptions in the Mabinogion' *Y Cymmrodor*, 39 (1928), 86-148.
Fulton, H. *Medieval Celtic Literature and Society*, Dublin: Four Courts, 2005.

Johnston, D. *Llên yr Uchelwyr: hanes beirniadol llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2005.
Jones, G. a Jones, T. (trans.) *The Mabinogion*, London: Dent, 1974.
Mac Cana, P. *The Mabinogi*, Cardiff: University of Wales Press, 1977.
Parker, W. *The Four Branches of the Mabinogi*, Oregon House, CA: Bardic Press, 2005.
Sims-Williams, P. *Irish Influence on Medieval Welsh Literature*, Oxford: Oxford University Press, 2011.
Valente, R.L. 'Merched y Mabinogi: women and the thematic structure of the Four Branches', PhD thesis, Cornell University, 1986.
Welsh, A. 'The traditional narrative motifs of the *Four Branches of the Mabinogi*', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 15 (1988), 51-62.

| | | |
|---|---|---|
| **CÔD Y MODWL:** | **CYCS7004C** | |
| **TEITL:** | **Bywyd Gwerin Gymru** | |
| **DYDDIAD:** | **16/07/2012** | |
| **CYDLYNYDD MODWL:** | **Dr Rhiannon Ifans** | |
| **LEFEL:** | **7** | |
| **CREDYDAU:** | **20** | |
| **DULLIAU ADDYSGU:** | **Dysgu o bell:** | **100%** |
| | ***Dysgu cyfeiriol*** | ***90%*** |
| | ***Tiwtorialau e-bost, ffôn a/neu wyneb yn wyneb*** | ***10%*** |
| **CÔD JACS:** | **Q561** | |

---

**AMCAN(ION)**

- Darparu myfyrwyr â gwybodaeth estynedig ynghylch dogfennaeth, a thafoli'r deunyddiau gwreiddiol ac eilradd yn y maes hwn yn llenyddol, yn hanesyddol ac o ran theori, gan arwain a chyfeirio myfyrwyr i gymryd golwg eang ar y ddisgyblaeth hon a'i dylanwad ar ddiwylliant a hunaniaeth frodorol Cymru.

**DEILLIANNAU DYSGU**

Erbyn diwedd y modwl hwn dylai myfyrwyr allu:

- asesu'n feirniadol y deunydd y mae astudwyr llên gwerin wedi ei gasglu a'i ddosbarthu;
- dadansoddi'r gwahanol ddulliau o astudio chwedloniaeth sef y dulliau cymharol, ffwythianyddol, defod-fyth, Jungaidd, Freudaidd a'r strwythurol;
- gwerthfawrogi'n feirniadol gwahanol ystyron a chynodiadau'r term 'llên gwerin' a sylweddoli ei fod yn rhywbeth byw, sy'n newid yn gyson;
- arddangos gwybodaeth drylwyr o le'r iaith Gymraeg, ei hanes a'i diwylliant yng nghyd-destun hunaniaeth a dinasyddiaeth Cymru.

**CYNNWYS**

Bydd y modwl hwn yn galluogi myfyrwyr i werthfawrogi'r testunau a ganlyn:

- diwylliant poblogaidd Cymru;
- straeon a chwedlau;
- coel a defodaeth dymhorol, gwyliau, ac arferion sy'n gysylltiedig â throfa'r rhod;
- chwaraeon plant;
- diwylliant materol;
- canu gwerin.

Mae'r modwl hwn yn rhychwantu'r cyfarwydd a'r anghyfarwydd, o'r traddodiadau diwylliannol cynharaf i ddigwyddiadau'r dydd heddiw, er enghraifft canlyn y Fari Lwyd. Bydd yn dilyn trywydd y flwyddyn ac yn edrych ar y defodau a'r dathliadau sy'n perthyn i bob cyfnod. Dechreuai'r hen flwyddyn Geltaidd ar y dydd cyntaf o Dachwedd a'r noson hon, Nos Galan Gaeaf, a ddynodai ddiwedd un flwyddyn a dechrau un arall. Symudir at ganol gaeaf, sef 21

Rhagfyr, a dyddiadau nodedig eraill ar y calendr Cymreig, megis y gwyliau (Nadolig) a thymor y plygain; Calan Mai a oedd yn gysylltiedig â gwyliau paganaidd y gwanwyn ond sydd bellach a'i garolau Cymraeg diweddar yn rhai Cristnogol. Edrychir ar arwyddocâd llwyau caru, penillion Ffolant, arferion geni, priodi a chladdu, ac astudir hefyd yr anterliwtiau a'r baledi Cymraeg. Edrychir ar etifeddiaeth gerddorol gyfoethog y Cymry yn lleisiol ac offerynnol, ynghyd â'i chyd-destun cymdeithasol. Astudir y straeon a'r chwedlau yn fanwl, rhai ohonynt yn ganrifoedd oed ac wedi eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth ar dafod-leferydd, gan esbonio pa ddigwyddiadau sy'n sail iddynt – os oes rhai. Ni chyfyngir yr astudiaeth i dir Cymru yn unig, ond rhoddir pwyslais ar gyd-destun byd-eang rhai o'r traddodiadau hyn.

**ASESU**

**Gwaith cwrs 100%**

Un traethawd o tua 5,000 o eiriau.

*Aseiniad enghreifftiol*
Trafodwch a gwerthuswch ddetholiad o straeon gwerin Cymru sy'n ymwneud â dŵr.

**LLYFRYDDIAETH**

**Hanfodol**


Dundes, A. *Sacred narrative*, Berkeley, Calif.; London: University of California Press, *c.* 1984.
Ifans, Rh. 'Folk Poetry and Diversions' in Branwen Jarvis (ed.), *A guide to Welsh literature c. 1700-1800,* Cardiff: University of Wales Press, 2000, pp. 187-209.
Ifans, Rh. *Sêrs a Rybana*, Llandysul: Gwasg Gomer, 1983.
Isaac, E. *Coelion Cymru*, Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1938.
Jackson, K. *International Popular Tale and Early Welsh Tradition*, The Gregynog Lectures, Cardiff: University of Wales Press, 1961.
Jones, D.G. 'The Interludes' in Branwen Jarvis (ed.), *A guide to Welsh literature c. 1700-1800*, Cardiff: University of Wales Press, 2000, pp. 210-255.
Owen, T.M. *Welsh Folk Customs*, Llandysul: Gwasg Gomer, 1997.
Rhŷs, J. *Celtic Folklore, Welsh and Manx*, 2 vols, London: Wildwood House, 1901, 1983.
Wiliam, E. *Y Bwthyn Cymreig: Arferion Adeiladu Tlodion y Gymru Wledig, 1750–1900*, Aberystwyth: RCAHMW, 2010.


**Argymhellir**


Gwyn, Rh.'Chwedlau lleol Penllyn a phlwyf Llanfachreth (Meir)', traethawd MA, Prifysgol Cymru Bangor, 1983.
Ifans, D. 'Lewis Morris ac Arferion Priodi yng Ngheredigion', *Ceredigion*, 8 (1977), 193–203.
Ifans, Rh. 'Merched yr Anterliwtiau', *Canu Gwerin,* 35 (2012), tt. 7–51.
Jones, Ff.M. *Welsh Ballads of the French Revolution 1793–1815* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2012).
Jones, F. *The Holy Wells of Wales*, Cardiff: University of Wales Press, 1992.
Jones, T.G. *Welsh Folklore and Folk Custom*, London, Methuen & Co. Ltd., 1930.
Myles, I.G. *Tales from Welsh Traditions, Hunchbacks of Lavan Sands, and Other Tales*, Denbigh, Gee & Son, 1923.
Owen, E. *Welsh Folk-Lore, A Collection of the Folk-Tales and Legends of North Wales*, Felin-fach, Llanerch, 1887, 1996.
Parry-Jones, D. *Welsh Legends and Fairy Lore*, London, B. T. Batsford, 1953.

Roberts, P. *The Cambrian Popular Antiquities of Wales*, Mold: County Council Library and Information Services, 1994.
Sikes, W. *British Goblins, Welsh Folk-Lore, Fairy Mythology, Legends and Traditions*, Wakefield, EP Publishing Limited, 1880, 1973 Facsimile reprint of 1st ed.
Ulmer-Leahey, C.S. ' "The Lady of the Lake" A motif analysis of the legend "The Lady of Llyn y Fan Fach" and a comparison with Twentieth Century works' (PhD thesis, Bangor University, 1995).
Wiliam, E. *Y Bwthyn Cymreig: Arferion adeiladu Tlodion y Gymru Wledig, 1750–1900*, Aberystwyth: RCAHMW, 2010.

**Cylchgronau:**

*Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* 1909–77
*Canu Gwerin* 1978–

**Gwefannau:**

http://www.anngriffiths.caerdydd.ac.uk/
http://www.cardiff.ac.uk/insrv/libraries/scolar/digital/welshballads/welshballadswebsite.html

| | |
|---|---|
| **CÔD Y MODWL:** | **CYCS7005C** |
| **TEITL:** | **Y Ferch yn yr Oesoedd Canol: Ffynonellau o'r Rhanbarthau Celtaidd** |
| **DYDDIAD:** | **16/07/2012** |
| **CYDLYNYDD MODWL:** | **Dr Jane Cartwright** |
| **LEFEL:** | **7** |
| **CREDYDAU:** | **20** |
| **DULLIAU ADDYSGU:** | **Dysgu o bell: 100%**<br>***Dysgu cyfeiriol 90%***<br>***Tiwtorialau e-bost, ffôn 10%***<br>***Skype a/neu wyneb yn wyneb*** |
| **CÔD JACS:** | **V213** |

---

**AMCAN(ION)**

- Darparu myfyrwyr â gwybodaeth estynedig am yr ystod eang o ffynonellau canoloesol sy'n ymwneud â bywydau merched yn y rhanbarthau Celtaidd yn ystod yr Oesoedd Canol.

**DEILLIANNAU DYSGU:**

Erbyn diwedd y modwl hwn dylai myfyrwyr allu:

- dadansoddi, dehongli a gwerthuso'n feirniadol ystod gymhleth o ffynonellau gwreiddiol (e.e. cyfreithiau, cofnodion llysoedd, deunydd achyddol, canu cynnar a barddoniaeth yr Oesoedd Canol, chwedlau seciwlar a chrefyddol);
- olrhain a deall y safbwyntiau damcaniaethol a methodolegol amrywiol sydd wedi helpu llunio a diffinio arferion astudio ym maes astudiaethau'r Oesoedd Canol ac astudiaethau'r rhywiau;
- arddangos dealltwriaeth eglur o sut y canfyddid merched mewn testunau llenyddol, cyfreithiol a/neu grefyddol a'r rôl mae merched yn y rhanbarthau Celtaidd wedi'i chwarae yng nghyswllt y celfyddydau, gwleidyddiaeth a/neu grefydd.

**CYNNWYS**

Bydd y modwl hwn yn archwilio'n fanwl yr ystod o wahanol ffynonellau sy'n dyst i fywyd merched yn yr Oesoedd Canol yn y rhanbarthau Celtaidd. Amlinellir y problemau sy'n codi wrth geisio diffinio ffiniau ieithyddol, diwylliannol a daearyddol yn yr Oesoedd Canol. Ystyrir llythrennedd a'r defnydd o amryw o ieithoedd brodorol (yn ogystal â'r Lladin), a bydd y modwl yn annog myfyrwyr i ystyried gwahaniaethau yn ogystal â thebygrwydd rhwng y rhanbarthau Celtaidd. Trafodir priodasau (e.e. merched Llywelyn ap Iorwerth) ac ymdrechion merched i weithredu'n wleidyddol er lles eu teuluoedd; dylanwadau allanol, diwylliannol megis y traddodiad gwrth-ffeministaidd, pwysigrwydd barddoniaeth serch a pharhad y traddodiad llafar. Ystyrir rôl merched mewn barddoniaeth arwrol Geltaidd, gan dalu sylw penodol i farddoniaeth chwedlonol Gymraeg gynnar a thema sofraniaeth mewn llenyddiaeth Wyddeleg gynnar. Wedyn bydd y modwl yn archwilio cyfraniad diwylliannol merched, yn noddwyr ac yn feirdd (megis Gwerful Fychan a Gwerful Mechain), i fywyd canoloesol, a bydd yn archwilio statws menywod yng nghyfraith Hywel Dda a chyfraith gynnar Iwerddon: archwilir detholiad o bynciau megis trais, priodas, *galanas*, ysgariad a safle cymdeithasol y ferch. Ystyrir hefyd y

rôl a chwaraeid gan ferched yn y bywyd crefyddol drwy astudio'r ffynonellau hanesyddol sydd ar gael sy'n sôn am leiandai yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban.

**ASESU**

**Gwaith cwrs 100%**

Un traethawd 5,000 o eiriau

*Aseiniad enghreifftiol:*
Darparwch ddadansoddiad beirniadol o'r ffynonellau hanesyddol sy'n gysylltiedig â lleiandai Cymru, Iwerddon NEU yr Alban yn yr Oesoedd Canol. Yn eich ateb dylech ganolbwyntio ar UN o'r rhanbarthau Celtaidd yn unig.

**LLYFRYDDIAETH**

**Hanfodol**

Cartwright, J. *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: agweddau ar wyryfdod a diweirdeb yng Nghymru'r Oeseodd Canol*,Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999.
Cartwright, J. *Feminine Sanctity and Spirituality in Medieval Wales*, Cardiff: University of Wales Press, 2008.
Charnell-White, C. (gol.) *Beirdd Ceridwen: Blodeugerdd Barddas o Ganu Menywod hyd tua 1800*, Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas, 2005.
Easson, D.E. 'The nunneries of medieval Scotland', *Scottish Ecclesiological Transactions*, 13 (1940-41), 22-38.
Hall, D. *Women and the Church in Medieval Ireland c. 1140-1540*, Dublin: Four Courts, 2008.
Jenkins, D. and Owen, M.E. (eds.) *The Welsh Law of Women*, Cardiff: University of Wales Press, 1980.
Lloyd-Morgan, C. 'More written about than writing? Welsh women and the written word' in Huw Pryce (ed.), *Literacy in Medieval Celtic Societies*, Cambridge: Cambridge University Press, 1998, pp. 149-65.
Meek, C. and Katharine S. (eds.) *'The Fragility of Her Sex'? Medieval Irishwomen in Their European Context* Dublin: Four Courts, 1996.
Ó Corráin, D. 'Women in Early Irish Society', in Margaret MacCurtain and Donncha Ó Corráin (eds), *Women in Irish Society. The Historical Dimension*, Dublin: Arlen House/The Women's Press, 1978, pp. 1-13.
Richards, G. *Welsh Noblewomen in the Thirteenth Century: An historical study of medieval Welsh law and gender roles*, Lampeter: Edwin Mellen Press, 2009.

**Argymhellir**

Cartwright, J. 'Dead virgins: feminine sanctity in medieval Wales', *Medium Ævum*, 71 (2002), 1–28.
Cartwright, J. 'Women writers in Wales', in Liz Herbert McAvoy and Diane Watt (eds),*The History of British Women's Writing: Volume 1, 700–1500*, Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2012, pp. 60–71.
Davies, S. 'Y ferch yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol, *Cof Cenedl*, 9 (1994), 1-32.
Downie, F. ' "And they lived happily ever after". Medieval queenship and marriage in Scotland, 1424-1449', in Terry Brotherstone, Deborah Simonton and Oonagh Walsh (eds), *Gendering Scottish History. An international Approach* Glasgow: Cruithne Press, 1999, pp. 129-41.
Fulton, H. 'Medieval Welsh poems to nuns', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 21 (1991), 87-112.

Gifford, D. and Macmillan, D. (eds.) *A History of Scottish Women's Writing*, Edinburgh: Edinburgh University Press, 1997.
Haycock, M. 'Dwsin o brydyddesau?' *Dwned*, 16 (2010), 93-114.
Howells, N.A. (gol.) *Gwaith Gwerful Mechain*, Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2001.
Mac Cana, P. 'Theme of king and goddess in Irish literature', *Études Celtiques*, 7 (1955-6), 76-114, 356-413; 8 (1958-9) 59-65.
Powell, N. 'Women and Strict-Metre Poetry in Wales', in Michael Roberts and Simone Clarke (eds), *Women and Gender in Early Modern Wales*, Cardiff: University of Wales Press, 2000, pp. 129-58.
Rushforth, R. *St Margaret's Gospel Book: The Favourite Book of an Eleventh Century Queen of Scots*, Oxford: Bodleian Library, 2007.
Simms, K. 'Women in Norman Ireland', in Margaret MacCurtain and Donncha Ó Corráin (eds), *Women in Irish Society. The Historical Dimension*, Dublin: Arlen House/The Women's Press, 1978, pp. 14-25.
Smith, L.B. 'Towards a History of Women in Late Medieval Wales', in Michael Roberts and Simone Clarke (eds), *Women and Gender in Early Modern Wales*, Cardiff: University of Wales Press, 2000, pp. 14-49.
Dor, J., Johnson, L. and Wogan-Browne, J. (eds.) *New Trends in Feminine Spirituality: The Holy Women of Liège and their Impact*,Brussels: Brepols, 1999.
Williams, D.H. 'Cistercian nunneries in medieval Wales', *Citeaux*, 26 (1975), 155–74.
Williams, D.H. 'Usk nunnery', *Monmouthshire Antiquary*, 4 (1980), 44–5.
Wogan-Browne, J. 'Saints' lives and the female reader', *Forum for Modern Language Studies*, 37 (1991), 314–32.

| | |
|---|---|
| **CÔD Y MODWL:** | **CYCS7007C** |
| **TEITL:** | **Santesau Cymru** |
| **DYDDIAD:** | **16/07/2012** |

| | |
|---|---|
| **CYDLYNYDD MODWL:** | **Dr Jane Cartwright** |
| **LEFEL:** | **7** |
| **CREDYDAU:** | **20** |

| | | |
|---|---|---|
| **DULLIAU ADDYSGU:** | **Dysgu o bell:** | **100%** |
| | ***Dysgu cyfeiriol*** | ***90%*** |
| | ***Tiwtorialau e-bost, ffôn a/neu wyneb yn wyneb*** | ***10%*** |

| | |
|---|---|
| **CÔD JACS:** | **V213** |

---

**AMCAN(ION)**

- Darparu myfyrwyr â gwybodaeth estynedig o'r ffynonellau llenyddol a hanesyddol sy'n gysylltiedig â santesau Cymru, gan gynnwys bucheddau'r saint, barddoniaeth ganoloesol, dogfennaeth hanesyddol, llên gwerin a'r traddodiad llafar yn ogystal â ffynonellau archaeolegol a gweledol.

**DEILLIANNAU DYSGU:**

Erbyn diwedd y modwl hwn dylai myfyrwyr allu:

- arddangos bod gwybodaeth estynedig ganddynt o'r chwedlau a thraddodiadau sy'n gysylltiedig â menywod sanctaidd yr Oesoedd Canol cynnar yng Nghymru a dealltwriaeth eglur o'r cyd-destun cyfandirol ehangach;
- dadansoddi, dehongli a gwerthuso'n feirniadol ystod gymhleth o ffynonellau gwreiddiol (e.e. deunydd achyddol darniog neu ffynonellau barddonol, amryw o fersiynau canoloesol gwahanol o'r un Bucheddau, enghreifftiau sy'n goroesi o'r diwylliant materol);
- cynllunio ac ymgymryd ag ymchwil ar gwlt santes benodol neu thema amlwg sy'n gysylltiedig â'r maes;
- olrhain a deall y safbwyntiau amrywiol o ran damcaniaeth a methodoleg sydd wedi helpu llunio a diffinio'r astudiaeth o bynciau megis yr eglwys 'Geltaidd', sancteiddrwydd benywaidd a dulliau ffeministaidd, patrwm bywgraffiadol Bucheddau'r saint a'r defnydd o lên gwerin;
- gwerthfawrogi'n feirniadol bortreadau artistig o santesau a dadansoddi'r eiconograffiaeth ohonynt.

**CYNNWYS**

Mae'r modwl hwn yn cyflwyno myfyrwyr i natur gymhleth y ffynonellau sy'n ymwneud â llawer o santesau Cymru, gan gynnwys Santes Gwenfrewy (yr honnir bellach fod ei ffynnon sanctaidd yn un o saith rhyfeddod Cymru); Dwynwen (nawddsantes cariadon); Melangell (nawddsantes ysgyfarnogod) a Non (mam Dewi Sant). Er bod y rhan fwyaf o bobl yn gyfarwydd â chwlt Dewi Sant (nawddsant Cymru), mae'r chwedlau a'r traddodiadau sy'n gysylltiedig â menywod sanctaidd Cymru yn llai adnabyddus ar y cyfan. Mae'r modwl hwn yn archwilio'r ffynonellau llenyddol a hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r menywod sanctaidd hyn ac mae'n taflu goleuni ar eu cyltiau canoloesol. Yn ogystal â'r santesau a nodwyd eisoes, mae'r

modwl hefyd yn ystyried y dystiolaeth ddarniog sydd ar gael ar gyfer santesau lleol eraill o Gymru (er enghraifft Gwenog, Eluned a Maches). Yn ogystal edrychir ar y Bucheddau Cymraeg a'r dystiolaeth o Gymru ar gyfer rhai o santesau pwysicaf y byd Cristnogol (megis Catrin o Alecsandria a Marged o Antioch. Anogir myfyrwyr i gwestiynu dilysrwydd y cysyniad o Eglwys 'Geltaidd' unedig, ac i ystyried pwysigrwydd crefyddol, hanesyddol a gwleidyddol y Bucheddau (neu fywgraffiadau) canoloesol sy'n disgrifio gwyrthiau a champau'r santesau. Byddwn hefyd yn ystyried pam mae llai o ffynonellau bucheddol ar gael ar gyfer y santesau ac yn dadansoddi'r patrwm bywgraffiadol sydd i'w ganfod yn y ffynonellau llenyddol. Archwilir y deunydd o Gymru yn ei gyd-destunau Ynysol ac Ewropeaidd ehangach a, thrwy ddarllen cyfeiriol, arweinir myfyrwyr drwy'r safbwyntiau amrywiol o ran damcaniaeth a methodoleg. Mae'r modwl wedi'i ddarlunio drwyddo gan ffotograffau a dynnwyd gan awdur y modwl: y nod yw pwysleisio pwysigrwydd y dystiolaeth weledol sy'n gysylltiedig â chwlt y saint, dadansoddi enghreifftiau o eiconograffiaeth ganoloesol a hefyd annog myfyrwyr i ymweld â rhai o'r eglwysi, safleoedd a ffynhonnau sanctaidd sy'n gysylltiedig â seintiau o Gymru.

**ASESU**

**Gwaith cwrs 100%**

Un traethawd o tua 5,000 o eiriau

*Aseiniad enghreifftiol:*
Darparwch ddadansoddiad beirniadol manwl o'r dystiolaeth sydd wedi goroesi ar gyfer cwlt Melangell. I ba raddau mae *Historia divae Monacellae* yn dyst pwysig i gwlt y santes hon a'r noddfa sy'n gysylltiedig â Phennant Melangell?

**LLYFRYDDIAETH**

**Hanfodol**

Cartwright, J. 'Dead virgins: feminine sanctity in medieval Wales', *Medium Ævum*, 71 (2002), 1–28.
Cartwright, J. *Feminine Sanctity and Spirituality in Medieval Wales*, Cardiff: University of Wales Press, 2008.
Cartwright, J. *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: agweddau ar wyryfdod a diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol*,Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999.
Feiss, H. and Pepin, R. (trans.) *Two Mediaeval Lives of Saint Winefride*,Toronto: Peregrina Publishing, 2000.
Henken, E.R. *Traditions of the Welsh Saints*, Cambridge: D. S. Brewer, 1987.
Henken, E.R. *The Welsh Saints A Study in Patterned Lives*, Cambridge: D. S. Brewer, 1991.
Pritchard, T.W. *St Winefride, Her Holy Well and the Jesuit Mission* c.*650-1930*, Trowbridge: Cromwell Press Group, 2009.
Pryce, H. 'A new edition of the *Historia Divae Monacellae*', *Montgomeryshire Collections*, 82 (1994), 23–40.

**Argymhellir**

Baring-Gould, S. and Fisher, J. *The Lives of the British Saints*, 4 vols, London: Cymmrodorion, 1907–13.
Bradley, I. *Celtic Christianity: Making Myths and Chasing Dreams* Edinburgh: Edinburgh University Press, 1999.
Cartwright, J. (ed.) *Celtic Hagiography and Saints' Cults*, Cardiff: University of Wales Press, 2003.

Dor, J., Johnson, L. and Wogan-Browne, J. (eds.) *New Trends in Feminine Spirituality: The Holy Women of Liège and their Impact*,Brussels: Brepols, 1999.
James, C. 'Pen-rhys: Mecca'r genedl', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Cwm Rhondda* Llandysul: Gwasg Gomer, 1995, tt. 27–71.
Jones, F. *The Holy Wells of Wales*, Cardiff: University of Wales Press, repr. 1992.
Le Berre, Y. *et al. Buez Santez Nonn. Mystère breton. Vie de sainte Nonne*, Minihi-Levenez: C.R.B.C., 1999.
Lewis, K.J. *The Cult of St Katherine of Alexandria in Late Medieval England* Woodbridge: The Boydell Press, 2000.
Richards, M. 'Buchedd Fargred', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 11 (1939), 324–34.
Richards, M. 'Buchedd Fargred', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 13 (1949), 65–71.
Wade-Evans, A.W. (ed. and trans.) *Vitae Sanctorum Britanniae et Geneaologiae* Cardiff: University of Wales Press, 1944.
Williams, J.E.C. 'Bucheddau'r saint: eu cefndir a'u datblygiad fel llên', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 11 (1944), 149–57.
Williams, J.E.C '*Transitus Beatae Mariae* a Thestunau Cyffelyb', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 17 (1959), 131–57.
Williams, J. E.C. 'Buchedd Catrin Sant', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* 25 (1973), 247–68.
Williams, J. E.C. 'Rhyddiaith Grefyddol Cymnraeg Canol 1 a 2' yn Geraint Bowen (gol.) *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol*, Llandysul: Gwasg Gomer, 1974, tt. 312-408.
Winward, F. 'The Lives of St. Wenefred (BHL 8847–8851)', *Analecta Bollandiana*, 117 (1999), 100–3.
Wogan-Browne, J. 'Saints' lives and the female reader', *Forum for Modern Language Studies*, 37 (1991), 314–32.
Wogan-Browne, J. *Saints' Lives and Women's Literary Culture c. 1150–1300: Virginity and its Authorizations*,Oxford: Oxford University Press, 2001.
Evans, J.W. and Wooding, J.M. (eds.) *St David of Wales: Cult, Church and Nation*, Woodbridge: Boydell and Brewer, 2007.

| | |
|---|---|
| **CÔD Y MODWL:** | **CYCS7016C** |
| **TEITL:** | **Cymdeithaseg yr Iaith Gymraeg** |
| **DYDDIAD:** | **16/07/2012** |
| **CYDLYNYDD MODWL:** | **Dr Christine Jones** |
| **LEFEL:** | **7** |
| **CREDYDAU:** | **20** |
| **DULLIAU ADDYSGU:** | **Dysgu o bell: 100%**<br>***Dysgu cyfeiriol 90%***<br>***Tiwtorialau e-bost, ffôn, Skype a/neu wyneb yn wyneb 10%*** |
| **CÔD JACS:** | **Q140** |

---

**AMCAN(ION)**

- Sicrhau bod dealltwriaeth drylwyr gan fyfyrwyr o gyflwr y Gymraeg yn y gorffennol a heddiw, ac felly hwyluso'u gallu i fesur a gwerthuso'i rhagolygon yn y dyfodol.

**DEILLIANNAU DYSGU**

Erbyn diwedd y modwl hwn dylai myfyrwyr allu:

- trafod a dehongli hanes ieithyddol y Gymraeg yng Nghymru yn fanwl, gan gynnwys tueddiadau demograffig;
- adfyfyrio'n feirniadol ar rôl addysg, y cyfryngau a sefydliadau cyhoeddus o ran gwrthdroi dyfudiad iaith yng Nghymru yn yr hanner can mlynedd diwethaf;
- dadansoddi ac asesu amcanion a chyfyngiadau strategaethau a dogfennau polisi diweddar mewn perthynas â'r iaith Gymraeg;
- asesu'n feirniadol ddyfodol y Gymraeg yng ngoleuni datblygiadau'r gorffennol a heddiw o ran ei hanes geo-ieithyddol.

**CYNNWYS**

Mae'r modwl yn dechrau drwy ganolbwyntio ar geo-ieithyddiaeth ac yn gosod y Gymraeg yn ei chyd-destun hanesyddol a demograffig. I ddilyn ceir trafodaeth fanwl ar ei rôl a'i safle o fewn addysg, y cyfryngau a sefydliadau cyhoeddus yn dilyn darlith radio enwog Saunders Lewis, 'Tynged yr Iaith', hyd at droad y mileniwm a sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. Wedyn â'r modwl ymlaen i ganolbwyntio ar yr iaith Gymraeg yn yr 21ain ganrif trwy ddadansoddi dogfennau polisi diweddar megis *Iaith Pawb* (2003), *Strategaeth Addysg Uwch CyfrwngCymraeg* (2010) a *Iaith Fyw: Iaith Byw* (2011) sy'n ceisio nodi'n fanwl sut mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n anelu at gynyddu dwyieithrwydd a chryfhau'r Gymraeg. Daw'r modwl i ben â thrafodaeth ar ragolygon yr iaith yn y dyfodol yng ngoleuni *Y Mesur Iaith* (2011), y safonau arfaethedig newydd ar gyfer y Gymraeg, a chanlyniadau Cyfrifiad 2011. Telir sylw penodol i'r ddamcaniaeth os bydd y Gymraeg yn goroesi, bydd angen iddi ddygymod â bod yn iaith leiafrifol mewn cyd-destun dinesig, ac yn ddibynnol ar yr ysgol i'w throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf, yn hytrach na'r cartref.

**ASESU**

**Gwaith cwrs 100%**

Adroddiad 1,000 o eiriau (20%)
Traethawd 4,000 o eiriau (80%)

*Aseiniadau enghreiffitiol*
Lluniwch adroddiad beirniadol yn gwerthuso'r strategaeth, *Iaith Fyw: Iaith Byw(2011)*
Dadansoddwchyn fanwl hanes a datblygiad yr iaith Gymraeg o 1901 hyd heddiw o safbwynt geo-ieithyddol. Beth fydd canlyniad Cyfrifiad 2011 yn eich barn chi?

**LLYFRYDDIAETH**

**Hanfodol**


Aitchison, J.W. & Carter, H. *The Geography of the Welsh Language* 1961-1991, Cardiff: University of Wales Press, 1994.
Aitchison, J.W. & Carter, H. *Language, Economy and Society, the changing fortunes of the Welsh language in the 20th century*,Cardiff: University of Wales Press, 2000.
Aitchison, J.W.& Carter, H. *Spreading the Word: The Welsh Language 2001*, Talybont: Y Lolfa, 2004.
Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Dyfodol y Gymraeg – Cynllun Strategol: The Future of Welsh - A Strategic Plan*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005.
Edwards, D.G. 'Education and Welsh-language planning', *Language, Culture and Curriculum*, 6, 257-273.
Jenkins, G.H. 'Terminal Decline? The Welsh Language in the Twentieth Century', *North American Journal of Welsh Studies*, Vol 1. No 2. (2001), 59-67.
Jones, H.M. *Trosglwyddo'r Iaith o fewn Cartrefi*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005.
Lewis, G. *Hawl i'r Gymraeg*, Talybont: Y Lolfa, 2008.
Morris, D. (ed.) *Welsh in the 21st century*, Cardiff: University of Wales Press, 2010.
Ó Néill, D. (ed.) *Rebuilding the Celtic Languages*, Talybont: Y Lolfa, 2005.
Williams, C.H. (ed.) *Language Revitalization: Policy and Planning in Wale*s, Cardiff: University of Wales Press, 2000.
Williams, I.W. (gol.) *Gorau arf: hanes sefydlu ysgolion Cymraeg 1939 – 2000*, Talybont: Y Lolfa, 2003.


**Argymhellir**


Ball, M.J. and Fife, J. *The Celtic Languages*, London: Routledge, 2002.
Bowen, E.G. & Carter, H. 'Preliminary observations on the distribution of the Welsh language at the 1971 Census', *Geographical Journal*, 140, 432–40.
Coupland, N. *Language, Identity and Performance: Sociolinguistic Perspectivesin Wales*, Cardiff: University of Wales Press, 2008.
Davies, C. *The Welsh Language*, Talybont: Y Lolfa, 2006.
Dorian, N.C. *Language Death*, Philadelphia: University of Pennsylvania Press, 1981.
Edwards, V. and Pritchard Newcombe, L. 'When school is not enough: new initiatives in intergenerational language transmission in Wales', *Bilingual Education and Bilingualism*, 8 (2005), 298–312.
Gruffudd, H. 'Young People's Use of Welsh: the influence of home and community', *Contemporary Wales*, 10 (1998), 200-18.
Jenkins, G.H. & Williams, M.A. (goln.)*'Eu hiaith a gadwant?'Yr Iaith Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000.

Jones, C. M. ‘Welsh: A Language in Crisis?’ in Alena Mizerola (ed.), *Minority Languages in Europe*, Masaryk: Masaryk University Press, Spain, 45-65.
Jones, K. & Morris, D. ‘Welsh Language Socialization within the Family’, *Contemporary Wales*, 20 (2007), 52-70.
Jones, R.O. *Agweddau ar Hanes y Gymraeg a’r Gymdeithas*, Llandysul: Gwasg Gomer, 1998.
Lewis, S. ‘Tynged yr Iaith’ (Cyfieithiad Saesneg), *Planet 4* (1972). Gwreiddiol: www.llgc.org.uk/Ymgyrchu/Iaith/TyngedIaith/tynged
Mac Giolla Chriost, D. ‘Language: Marketing, the Consumer-Citizen and Language Behaviour’, *Current Issues in Language Planning*, 6, (2005), 64-72.
Thomas, H. *Brwydr i Baradwys?* Caerdydd:Gwasg Prifysgol Cymru, 2010.
Williams, C.H. ‘‘Iaith Pawb’: The doctrine of plenary inclusion’, *Contemporary Wales*, 17 (2004), 1-27.
Williams, G. & Morris, D. *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age*, Cardiff: University of Wales Press, 2000.

**Adnoddau’r We**

Llywodraeth Cymru: http://www.cymru.gov.uk
Mae *Iaith Pawb* (2003)*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (2010) a *Iaith Fyw: Iaith Byw* (2011) i gyd ar gael ar y wefan uchod ac fe’u hystyrir yn ddarllen hanfodol**.**
http://www.direct.gov.uk/cy/parents
http://www.gaidhlig.org.uk
http://www.iaith.eu
www.comisiynyddygymraeg.org/*– gw. yn enwedig Darlun Ystadegol o’r Iaith Gymraeg, Hywel M. Jones, 2012*

| | | |
|---|---|---|
| **CÔD Y MODWL:** | **CYCS7010C** | |
| **TEITL:** | **Traethawd Hir** | |
| **DYDDIAD:** | **16/07/2012** | |
| **CYDLYNYDD MODWL:** | **Dr Jane Cartwright** | |
| **LEFEL:** | **7** | |
| **CREDYDAU:** | **60** | |
| **DULLIAU ADDYSGU:** | **Dysgu o bell:** | **100%** |
| | ***Dysgu cyfeiriol*** | ***90%*** |
| | ***Tiwtorialau e-bost, ffôn a/neu wyneb yn wyneb*** | ***10%*** |
| **CÔD JACS:** | **Q561, Q510, VQ612, V213, V640, Q800, Q140** | |

---

**AMCAN(ION)**

- Darparu myfyrwyr â chyfle i ymgymryd ag astudiaeth estynedig, trwyadl ac annibynnol o bwnc arbenigol o'u dewis ym maes Astudiaethau Celtaidd

**DEILLIANNAU DYSGU**

Erbyn diwedd y modwl hwn dylai myfyrwyr allu:

- adnabod testun, thema neu bwnc priodol i'w archwilio ym maes Astudiaethau Celtaidd a datblygu cwestiynau priodol ar gyfer astudiaeth fanwl neu ymchwil gwreiddiol;
- adnabod a dylunio methodoleg ymchwil briodol i ateb eu cwestiynau ymchwil, a gwerthuso'n feirniadol y dulliau ymchwil a ddefnyddir o fewn eu traethawd hir a'u priodoldeb yng nghyd-destun eu hymchwil;
- ymgymryd ag arolwg llenyddol yn eu maes perthynol ac adolygu'n feirniadol lenyddiaeth ac ymchwil perthnasol a'u gwerthuso;
- adnabod a gwerthuso unrhyw faterion moesegol sydd ymhlyg yn eu cyd-destun ymchwil;
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r pwnc arbenigol o'u dewis;
- mynegi'u hun yn eglur ac yn gydlynol gan lunio traethawd hir ymchwil graenus a threfnus o fewn y cyfnod ac yn unol â'r safonau a gytunir.

**CYNNWYS**

Bydd gan fyfyrwyr sydd wedi cwblhau Rhan I y radd MA Astudiaethau Celtaidd gyfle i wella'u gwybodaeth o bwnc penodol sydd wedi bod o ddiddordeb iddynt ar hyd y cynllun. Yn y lle cyntaf, bydd yn ofynnol i fyfyrwyr gynhyrchu cynnig ymchwil a fydd yn amlinellu prif nodau ac amcanion y traethawd hir, yn ogystal â darparu disgrifiad o'r fethodoleg i'w defnyddio, adolygiad o'r prif ffynonellau sydd ar gael a disgrifiad byr o gynnwys a strwythur y traethawd hir. Dylid nodi unrhyw gwestiynau ymchwil penodol yr eir i'r afael â nhw yn y traethawd hir. Neilltuir arolygydd ar gyfer myfyrwyr, sef yr unigolyn mwyaf priodol yn yr Ysgol, i roi sylwadau ar y pwnc arbenigol a ddewiswyd gan y myfyriwr. Darperir arolygiaeth drwy e-bost a thiwtorialau ar y ffôn neu Skype, ond hefyd anogir myfyrwyr dysgu o bell i gwrdd â'u harolygwyr os bydd yn ymarferol. Bydd myfyrwyr yn ymchwilio i'r pwnc a ddewiswyd ganddynt ac yn ysgrifennu traethawd hir oddeutu 20,000 o eiriau.

**ASESU**

**Gwaith Cwrs 100%**

Traethawd hir 20,000 o eiriau

*Enghreifftiau o deitlau traethodau hir blaenorol:*
'Ffeithiau Ffantastig: Y Goruwchnaturiol yng Ngweithiau Gerallt Gymro, gan gyfeirio'n benodol at *Expugnatio Hibernica, Topograpia Hibernica, Itinerarium Kambriae* a *Descriptio Kambriae'*
'Lleiandai yn y Rhanbarthau Celtaidd yn yr Oesoedd Canol: Astudiaeth Gymharol'
'Adfywio Iaith yn yr Unfed Ganrif ar Hugain: Y Gymraeg a'r Cyfryngau Digidol'
'Newgrange i Skellig Michael: Ailedrych ar Ddamcaniaeth Goresgyniad Iwerddon'

**LLYFRYDDIAETH**

**Hanfodol**

Anon., *MHRA Style Book: notes for authors, editors and writers of theses*, London: Modern Humanities Research Association, 1991.
Ifans, Rh. *Y Golygiadur*, Aberystwyth: Cymdeithas Llyfrau Ceredigion, 2006.
Pears, R. *Cite them Right: the essential guide to referencing and plagiarism*, Newcastle upon Tyne: Pear Tree Books, 2005.

**Argymhellir**

Creswell, J.W. *Research Design: qualitative, quantitative, and mixed methods approaches*, London: Sage Publications Ltd., 2003.
Cryer, P. *The Research Student" Guide to Success*, Maidenhead: Open University Press, 2006.
Hart, C. *Doing Your Masters Dissertation*, London: Sage Publications Ltd, 2004.
Marshall, C. and Rossman, G.B. *Designing Qualitative Research*, London: Sage Publications Ltd, 2006.

| | | |
|---|---|---|
| **CÔD Y MODWL:** | **CYCS7022C** | |
| **TEITL:** | **Traethawd Hir** | |
| **DYDDIAD:** | **05/07/2013** | |
| **CYDLYNYDD MODWL:** | **Dr Jane Cartwright** | |
| **LEFEL:** | **7** | |
| **CREDYDAU:** | **60** | |
| **DULLIAU ADDYSGU:** | **Dysgu o bell:** | **100%** |
| | ***Dysgu cyfeiriol*** | ***90%*** |
| | ***Tiwtorialau e-bost, ffôn a/neu wyneb yn wyneb*** | ***10%*** |
| **CÔD JACS:** | **Q561, Q510, VQ612, V213, V640, Q800, Q140** | |

---

**AMCAN(ION)**

- Darparu myfyrwyr â chyfle i ymgymryd ag astudiaeth estynedig, trwyadl ac annibynnol o bwnc arbenigol o'u dewis ym maes Astudiaethau Celtaidd

**DEILLIANNAU DYSGU**

Erbyn diwedd y modwl hwn dylai myfyrwyr allu:

- adnabod testun, thema neu bwnc priodol i'w archwilio ym maes Astudiaethau Celtaidd a datblygu cwestiynau priodol ar gyfer astudiaeth fanwl neu ymchwil gwreiddiol;
- adnabod a dylunio methodoleg ymchwil briodol i ateb eu cwestiynau ymchwil, a gwerthuso'n feirniadol y dulliau ymchwil a ddefnyddir o fewn eu traethawd hir a'u priodoldeb yng nghyd-destun eu hymchwil;
- ymgymryd ag arolwg llenyddol yn eu maes perthynol ac adolygu'n feirniadol lenyddiaeth ac ymchwil perthnasol a'u gwerthuso;
- adnabod a gwerthuso unrhyw faterion moesegol sydd ymhlyg yn eu cyd-destun ymchwil;
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r pwnc arbenigol o'u dewis;
- mynegi'u hun yn eglur ac yn gydlynol gan lunio traethawd hir ymchwil graenus a threfnus o fewn y cyfnod ac yn unol â'r safonau a gytunir.

**CYNNWYS**

Bydd gan fyfyrwyr sydd wedi cwblhau Rhan I y radd MA Astudiaethau Celtaidd gyfle i wella'u gwybodaeth o bwnc penodol sydd wedi bod o ddiddordeb iddynt ar hyd y cynllun. Yn y lle cyntaf, bydd yn ofynnol i fyfyrwyr gynhyrchu cynnig ymchwil a fydd yn amlinellu prif nodau ac amcanion y traethawd hir, yn ogystal â darparu disgrifiad o'r fethodoleg i'w defnyddio, adolygiad o'r prif ffynonellau sydd ar gael a disgrifiad byr o gynnwys a strwythur y traethawd hir. Dylid nodi unrhyw gwestiynau ymchwil penodol yr eir i'r afael â nhw yn y traethawd hir. Neilltuir arolygydd ar gyfer myfyrwyr, sef yr unigolyn mwyaf priodol yn yr Ysgol, i roi sylwadau ar y pwnc arbenigol a ddewiswyd gan y myfyriwr. Darperir arolygiaeth drwy e-bost a thiwtorialau ar y ffôn neu Skype, ond hefyd anogir myfyrwyr dysgu o bell i gwrdd â'u harolygwyr os bydd yn ymarferol. Bydd myfyrwyr yn ymchwilio i'r pwnc a ddewiswyd ganddynt ac yn ysgrifennu traethawd hir oddeutu 15,000 o eiriau.

**ASESU**

**Gwaith Cwrs 100%**

Traethawd hir 15,000 o eiriau

*Enghreifftiau o deitlau traethodau hir blaenorol:*
'Ffeithiau Ffantastig: Y Goruwchnaturiol yng Ngweithiau Gerallt Gymro, gan gyfeirio'n benodol at *Expugnatio Hibernica, Topograpia Hibernica, Itinerarium Kambriae* a *Descriptio Kambriae'*
'Lleiandai yn y Rhanbarthau Celtaidd yn yr Oesoedd Canol: Astudiaeth Gymharol'
'Adfywio Iaith yn yr Unfed Ganrif ar Hugain: Y Gymraeg a'r Cyfryngau Digidol'
'Newgrange i Skellig Michael: Ailedrych ar Ddamcaniaeth Goresgyniad Iwerddon'

**LLYFRYDDIAETH**

**Hanfodol**

Anon., *MHRA Style Book: notes for authors, editors and writers of theses*, London: Modern Humanities Research Association, 1991.
Ifans, Rh. *Y Golygiadur*, Aberystwyth: Cymdeithas Llyfrau Ceredigion, 2006.
Pears, R. *Cite them Right: the essential guide to referencing and plagiarism*, Newcastle upon Tyne: Pear Tree Books, 2005.

**Argymhellir**

Creswell, J.W. *Research Design: qualitative, quantitative, and mixed methods approaches*, London: Sage Publications Ltd., 2003.
Cryer, P. *The Research Student" Guide to Success*, Maidenhead: Open University Press, 2006.
Hart, C. *Doing Your Masters Dissertation*, London: Sage Publications Ltd, 2004.
Marshall, C. and Rossman, G.B. *Designing Qualitative Research*, London: Sage Publications Ltd, 2006.

## POLISÏAU

### Polisi Presenoldeb y Brifysgol

Mae'n ofynnol i bob myfyriwr fynychu dosbarthiadau sydd wedi'u hamserlennu a bydd Cyfadrannau'n cofnodi presenoldeb academaidd yn wythnosol.

Nodir pwyntiau cyswllt ar gyfer pob rhaglen, gan gymryd i ystyriaeth strwythur y rhaglen a'r amserlen a drefnwyd.

Ar ôl colli tri phwynt cyswllt yn olynol, bydd y Gyfadran yn ysgrifennu at y myfyriwr ac yn gofyn iddo ef/hi gwrdd â'r cynrychiolydd rhaglen priodol.

Os bydd y myfyriwr yn colli dau bwynt cyswllt pellach yn olynol bydd y Gyfadran yn anfon rhybudd terfynol ato ef/hi.

Rhaid i fyfyrwyr sydd â rheswm dilys dros fod yn absennol (yn cynnwys salwch neu anaf) ddangos tystiolaeth. Ni fydd absenoldeb awdurdodedig yn cyfrif yn erbyn y myfyriwr. Cofnodir y cadarnhad o'r absenoldeb awdurdodedig ar gofnod y myfyriwr yn y Gofrestrfa.

Os na fydd myfyriwr yn darparu cyfiawnhad rhesymol am ei absenoldeb a/neu os bydd y myfyriwr yn methu â mynychu ar ôl derbyn rhybudd terfynol yna bydd y Gyfadran yn gofyn i'r Gofrestrfa dynnu'r myfyriwr yn ôl o'r rhaglen o fewn deufis i'r dyddiad mynychu diwethaf a gofnodwyd.

Adolygir presenoldeb cronnol pob myfyriwr ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Bydd y Gyfadran yn anfon llythyr o rybudd ar ddiwedd y flwyddyn at unrhyw fyfyriwr sydd â phresenoldeb cronnol o dan 70% am y flwyddyn academaidd. Bydd y llythyr yn rhybuddio'r myfyriwr bod y presenoldeb yn is na'r lefel a ddisgwylir gan y Brifysgol ac os bydd y presenoldeb gwael yn parhau gallai hyn arwain at dynnu'r unigolyn yn ôl o'r rhaglen.

### Myfyrwyr Rhyngwladol sydd â Fisa Haen 4 UKVI

Yn ychwanegol at y gofynion presenoldeb a nodwyd uchod, bydd y rheoliadau canlynol yn berthnasol i fyfyrwyr rhyngwladol sydd â fisa Haen 4 gan wasanaeth Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI).

Os bydd myfyriwr rhyngwladol yn colli 10 pwynt cyswllt yn olynol heb i hynny gael ei awdurdodi o gwbl, rhoddir gwybod i'r Gofrestrfa. Bydd y Gofrestrfa yn rhoi gwybod i UKVI bod nawdd Haen 4 y myfyriwr wedi'i dynnu'n ôl.

Yn ogystal, bydd yn ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol â fisa Haen 4 fynychu dau bwynt ailgofrestru gorfodol a gynhelir ym mis Ionawr a mis Mai.

Os bydd myfyriwr rhyngwladol yn methu â mynychu pwynt ailgofrestru neu os bydd yn colli deg pwynt cyswllt yn olynol, rhoddir gwybod i'r Gofrestrfa. Bydd y Gofrestrfa yn rhoi gwybod i UKVI bod nawdd Haen 4 y myfyriwr wedi'i dynnu'n ôl.

Rhaid i fyfyrwyr sydd â rheswm dilys dros fod yn absennol (yn cynnwys salwch neu anaf tra maent yn y DU sy'n eu rhwystro rhag bod yn bresennol) ddangos tystiolaeth. Rhaid i fyfyrwyr gael caniatâd i deithio dramor cyn gadael. Ni fydd absenoldeb awdurdodedig yn cyfrif yn

erbyn y myfyriwr. Cofnodir y cadarnhad o'r absenoldeb awdurdodedig ar gofnod y myfyriwr yn y Gofrestrfa.

Adolygir presenoldeb cronnol pob myfyriwr ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Bydd y Gyfadran yn anfon llythyr o rybudd ar ddiwedd y flwyddyn at unrhyw fyfyriwr sydd â phresenoldeb cronnol o dan 70% am y flwyddyn academaidd. Bydd y llythyr yn rhybuddio'r myfyriwr bod y presenoldeb yn is na'r lefel a ddisgwylir gan y Brifysgol ac os bydd y presenoldeb gwael yn parhau gallai hyn arwain at dynnu'r unigolyn yn ôl o'r rhaglen a thynnu'r fisa Haen 4 yn ôl.

Bydd unrhyw fyfyriwr rhyngwladol sydd â fisa Haen 4 ac sydd â phresenoldeb cronnol o dan 50% am y flwyddyn academaidd yn cael ei dynnu'n ôl o'r rhaglen a bydd y Gofrestrfa yn rhoi gwybod i wasanaeth Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI) fod ei nawdd Haen 4 wedi'i dynnu'n ôl.

**Polisi Presenoldeb a Datganiad Moeseg yr Ysgol**

## Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd

### Polisi Presenoldeb

Mae presenoldeb a phrydlondeb yn agweddau sy'n dylanwadu ar lwyddiant myfyriwr mewn modwl ac felly er nad yw presenoldeb mewn darlithoedd yn orfodol, mae staff yr Ysgol yn argymell yn gryf fod myfyrwyr yn eu mynychu. O ganlyniad, mae presenoldeb yn cael ei fonitro a bydd darlithwyr ar ddechrau pob darlith, yn cwblhau cofrestr ddosbarth. Os bydd myfyriwr yn absennol am dair darlith yn olynol neu os bydd ei b/phresenoldeb yn anwadal, cysylltir ag ef/hi trwy lythyr gan ei (g)wahodd i ddod am gyfweliad gyda'r Cydlynydd Rhaglen/Pennaeth Ysgol. Y nod yw canfod a oes problemau neu anawsterau gan y myfyriwr lle y gallai'r Ysgol fod o gymorth.

Os bydd myfyrwyr yn ymwybodol ymlaen llaw na fyddant yn bresennol ar ddiwrnod penodol, mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r darlithydd cyn y ddarlith gan nodi'r rheswm am eu habsenoldeb. Nid yw'n ddigonol i fyfyrwyr ofyn i ffrind eu hesgusodi ar eu rhan, rhaid gwneud ymdrech i gysylltu â'r darlithydd yn bersonol. Mae'n ofynnol iddynt hefyd sicrhau eu bod wedi cyflawni unrhyw waith a gollwyd neu dasgau a osodwyd cyn y ddarlith ddilynol.

**Ymweliadau Allanol**
Mae Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd yn trefnu ymweliadau achlysurol i leoedd o bwys hanesyddol/diwylliannol, fel arfer yn berthnasol i fodylau penodol. Mae'r rhain yn rhan bwysig a chyfoethogol o brofiad myfyrwyr. Mae'r Ysgol yn rhoi cymhorthdal ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymweliadau hyn gan godi ffi fechan yn unig. Fel arfer gofynnir i fyfyrwyr ddarparu blaendal bach er mwyn sicrhau gwarantu lle iddynt ar y bws ac er mwyn galluogi i'r Ysgol wneud trefniadau priodol. Bydd myfyrwyr nad ydynt wedyn yn manteisio ar eu lle yn colli'u blaendal. Bydd methu â mynychu ymweliadau'n cael ei gyfrif fel absenoldeb.

**Lleoliadau**
Mae rhai modylau ôl-raddedig Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd yn cynnwys gweithgarwch lleoliad. Er mwyn cwblhau'r modylau hyn yn llwyddiannus, rhaid ymgymryd â'r lleoliad. Golyga hyn y bydd presenoldeb y myfyrwyr sy'n astudio'r modylau hyn yn eu lleoliad yn cael ei gofnodi. Os yw myfyriwr yn absennol o'i leoliad heb iddo gael ei awdurdodi, neu os yw ei bresenoldeb yn anwadal, cysylltir ag ef/hi trwy lythyr gan ei (g)wahodd am gyfweliad gyda'r Cydlynydd Rhaglen/Pennaeth Ysgol.

Os yw myfyrwyr yn gwybod ymlaen llaw na fyddant yn mynychu'r lleoliad ar ddiwrnod penodol, gofynnir iddynt hysbysu darlithydd y modwl gan nodi'r rheswm am eu habsenoldeb. Dylent hefyd hysbysu eu cyswllt yn y lleoliad yn uniongyrchol.

Defnyddir cofnodion presenoldeb i gyfrannu at dystlythyrau myfyrwyr ar bob lefel.

Diweddarwyd Ionawr 2012

## Polisi Moeseg

### Prif Egwyddorion

- Dylai'r holl weithgaredd ymchwil a gynhelir o fewn yr Ysgol, naill yn annibynnol neu drwy gomisiwn, ddilyn canllawiau Côd Ymarfer y Brifysgol mewn perthynas â Moeseg Ymchwil a Chyfleoedd Cyfartal, ynghyd â chanllawiau cyrff proffesiynol perthnasol eraill megis BERA (http://www.bera.ac.uk/publications/guides.php).

- Cyflwynir pob cais ar gyfer ymchwil i Bwyllgor Moeseg y Brifysgol er mwyn ei archwilio a'i gymeradwyo cyn y caniateir iddo gael ei weithredu.

- Yr egwyddorion sydd yn sail i ystyriaethau moesegol yn YGAD yw y dylai gwaith a wneir o fewn neu ar ran yr Ysgol adlewyrchu parch moesegol at:
  - yr unigolyn
  - gywirdeb gwybodaeth
  - werthoedd democrataidd
  - gyfleoedd cyfartal

Mae'r Ysgol yn cydnabod bod dimenswn moesegol, o safbwynt astudio ac ymarfer, yn perthyn i bob rhaglen o fewn YGAD ac, felly, cyniga'r canllawiau canlynol ar gyfer pob gweithgaredd:

Cydnabyddir bod gennym amrywiaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau. Mae'r datganiad moesegol hwn yn cwmpasu pob aelod o staff, a myfyrwyr israddedig ac ôl-radd, boed yn amser-llawn neu yn rhan-amser. Cydnebydd y datganiad hwn hefyd yr amrywiaeth o feysydd astudio sydd o fewn yr Ysgol ac a all effeithio ar ymarfer.

### Canllawiau cyffredinol

- Disgwylir bod caniatâd cyfranogwyr wedi ei dderbyn ymhob achos a'u bod wedi'u hysbysu am yr hawl i dynnu allan o unrhyw ymchwil neu weithgaredd a gynhelir gan ddarlithwyr neu fyfyrwyr.

- Disgwylir i bob darlithydd a myfyriwr gydymffurfio â chyfraith gyfredol berthnasol. Lle cynhelir gwaith gyda phlant, cred yr Ysgol mai budd y plentyn sydd flaenaf ac y dylai llais y plentyn gael ei glywed. Cred YGAD hefyd fod gan blentyn yr hawl i fynegi ei safbwynt ac y dylid sicrhau caniatâd plentyn yn ogystal â rhiant neu warcheidwad.

- Cred yr Ysgol y dylai hynny hefyd ddigwydd yn achos unrhyw waith a wneir gan fyfyrwyr neu ddarlithwyr yn eu hymwneud â phobl ifanc ac oedolion sydd yn agored i niwed.

- Os yw myfyriwr neu ddarlithydd yn ansicr ynghylch unrhyw faterion moesol neu foesegol sydd yn codi mewn unrhyw agwedd ar ymchwil, dylai'r unigolyn hwnnw fynegi ei bryder i Bennaeth yr Ysgol. Gwna Pennaeth yr Ysgol naill ai benderfyniad ynghylch y cwestiwn neu, yn achos ansicrwydd pellach, ymholiadau am gyngor gan y Pwyllgor Moeseg.

- Cyn dechrau ar brosiectau sydd yn ymwneud ag unigolion a grwpiau, bydd pob myfyriwr yn mynychu darlith a fydd yn cynnig canllawiau penodol ac a fydd yn atgyfnerthu agweddau moesegol ar unrhyw weithgaredd ymchwil.

- Er mwyn diogelu anhysbysrwydd cyfranogwyr mewn ymchwil, ni chyfeirir at unrhyw unigolyn mewn unrhyw ffordd o fewn aseiniad neu ddogfen ymchwil (e.e.yn ôl ei enw personol neu ei sefydliad, neu drwy gynnwys delwedd) a fydd yn datgelu'r person, oni cheir caniatâd yr unigolyn neu'r sefydliad yn ysgrifenedig ymlaen llaw.

- Mae'r Ddeddf Diogelu Data hefyd yn caniatáu'r hawl i gyfranogwyr sydd yn ymwneud ag ymchwil gael mynediad i unrhyw ddata personol a gedwir.

- Anela pob gweithgaredd ymchwil a gynhelir gan yr Ysgol at ddatblygu addysg ac arbenigedd myfyrwyr. O ganlyniad i hynny, caiff y gofal am unrhyw unigolyn neu grŵp flaenoriaeth ar ofynion unrhyw aseiniad neu waith ymchwil.

- Wrth gyhoeddi unrhyw waith a ymgymerwyd gan fyfyriwr, dylid nodi enw'r myfyriwr yn gyntaf fel y prif awdur gydag enw'r darlithydd a fu'n arolygu'r gwaith yn dilyn.

- Dylai unrhyw waith a gyflwynir gan fyfyriwr osgoi defnyddio iaith nad yw'n gynhwysol. Yn ôl doethineb Bwrdd yr Ysgol, gellir mynnu bod myfyriwr sydd yn defnyddio iaith nad yw'n addas mewn aseiniad academaidd yn ailgyflwyno.

  Diweddarwyd Ionawr 2012

**YNGLŶN AG ARFER ANNHEG A LLÊN-LADRAD**
Mae'r Brifysgol yn diffinio arfer annheg fel 'unrhyw weithred, fwriadol neu fel arall, a allai sicrhau mantais nas caniateir i'r unigolyn ei hun, neu rywun arall...'. Cyflawni arfer annheg mewn asesiad yw un o'r troseddau mwyaf difrifol yn y byd academaidd, a gall ei ganlyniadau fod yn ddifrifol. Mae'n tanseilio integredd ysgolheictod, ymchwil a'r broses arholi ac asesu.

Mae'n bwysig iawn deall nad yw'n amddiffyniad honni bod arfer annheg wedi digwydd yn anfwriadol, yn ddamweiniol, oherwydd amgylchiadau esgusodol neu nam hirdymor (pa un ai yw'r Brifysgol wedi cydnabod yr amgylchiadau hyn neu'r nam hirdymor ai peidio).

Un math o arfer annheg yw llên-ladrad. Honni, neu geisio honni, mai eich gwaith chi yw gwaith a wnaed gan rywun arall yw llên-ladrad. Mae'n cynnwys copïo geiriau, syniadau, delweddau neu ganlyniadau ymchwil rhywun arall heb eu cydnabod, pa un a yw'r geiriau hynny ac ati wedi'u cyhoeddi ai peidio. Llên-ladrad, er enghraifft, yw copïo gwaith myfyriwr arall, gwaith aelod o'r staff neu erthygl a gyhoeddwyd heb gydnabod yr awdur. Mae pobl sy'n caniatáu i'w gwaith gael ei lên-ladrata hefyd yn euog.

Dylid nodi bod ailgyflwyno gwaith sydd eisoes wedi cael ei gyflwyno ar gyfer tasg asesu wahanol heb ddweud hynny (gelwir hyn yn hunan lên-ladrad) hefyd yn cael ei ystyried yn llên-ladrad a chaiff ei drin yn unol â hynny.

Llên-ladrad yw un o'r troseddau mwyaf difrifol yn y byd academaidd, a gall ei ganlyniadau fod yn ddifrifol. Mae'n tanseilio integredd ysgolheictod, ymchwil a'r broses arholi ac asesu. Mae'r canllawiau sy'n dilyn yn egluro beth yw llên-ladrad, yn disgrifio rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer delio ag ef, ac yn rhoi cymorth ar sut i'w osgoi.

Wrth gofrestru fel myfyriwr ym Mhrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant rydych wedi caniatáu i'ch gwaith gael ei archwilio'n electronig ac yn bersonol i wirio am achosion o lên-ladrad. Mewn nifer o Ysgolion bydd eich gwaith yn cael ei gyflwyno'n electronig trwy Moodle.

Yn achos cyflwyniadau y tu allan i lwyfan Moodle, mae'r un mor bwysig eich bod yn cyfeirnodi eich ffynonellau'n gywir. Mewn rhai achosion bydd disgwyl i chi gyflwyno copïau caled ac electronig, y gellir eu gwirio yn erbyn cronfa ddata Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad Addysg Uwch y DU. Yn achos cyflwyniadau mewn llawysgrifen, portffolios a llyfrau proses, holwch eich tiwtor modwl os ydych yn amau eich bod wedi torri'r rheoliadau. Maen nhw yma i'ch helpu; gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd mantais o'u harbenigedd.

**Llên-ladrad: Rheoliadau, Gweithdrefnau a Chosbau**
Ceir manylion llawn am weithdrefnau a chosbau'r Brifysgol ar gyfer delio ag achosion o lên-ladrad ym Mhennod 13 y *Llawlyfr Ansawdd Academaidd*, sydd i'w weld ar wefan y Brifysgol neu sydd ar gael o Swyddfeydd y Cyfadrannau. Mae crynodeb o'r manylion hyn ar gael hefyd yn *Rheoliadau'r Brifysgol – Canllaw i Fyfyrwyr Ôl-raddedig* a gyhoeddir yn adran y Swyddfa Academaidd ar wefan y Brifysgol:
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/rheoliadaur-brifysgol-canllawiau-ar-gyfer-myfyrwyr/

**Osgoi llên-ladrad**
Mae gwaith cwrs, traethodau hir neu waith creadigol i fod yn waith gwreiddiol gennych chi. Wrth gwrs, byddwch yn defnyddio gwaith pobl eraill. Nid yn unig y mae hyn yn anochel, mae i'w ddisgwyl.

Mae pob ysgolheictod yn adeiladu ar waith pobl eraill. Y peth pwysig i'w gofio yw **cydnabod eich ffynonellau** bob amser. Bydd eich Ysgol yn darparu sesiynau ar gyfeirnodi a llên-ladrad ond fel arweiniad bras dilynwch y canllawiau canlynol:

- *Rhaid i unrhyw beth sy'n cael ei gopïo neu'i ddyfynnu o ffynhonnell arall, gan gynnwys ffynonellau electronig megis y rhyngrwyd, fod mewn dyfynodau ac wedi'i briodoli i'r awdur gwreiddiol. Gallwch wneud hyn yng nghorff y testun neu ar ffurf troednodyn. Dylid rhoi manylion llawn y ffynhonnell yn y llyfryddiaeth. Pa ddull bynnag a ddefnyddir, cofiwch gydnabod eich ffynhonnell bob tro a rhoi manylion llawn amdani (h.y. awdur, dyddiad, rhif tudalen).*

- *Wrth gyfosod gwaith pobl eraill rydych yn rhoi eu syniadau hwy yn eich geiriau chi. Mae hyn yn iawn, ond unwaith eto, rhaid i chi gydnabod eich ffynhonnell. Gellir gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd yn ôl y cyd-destun. Er enghraifft: 'Cred Hart (2003, 52) fod...' 'Rhydd Hart (2003, 52) dystiolaeth ynghylch..': 'Dadleua, neu awgryma Hart (2003, 52) fod...' Yna rhowch ffynhonnell y gwaith gwreiddiol.*

- *Mewn achosion lle'r ydych yn ddyledus i un neu ddwy brif ffynhonnell am eich syniadau, gall hyn fod ychydig yn fwy anodd. Os daw'r syniadau neu'r modd y'u cyflwynir o un neu ddwy ffynhonnell, gwnewch hyn yn glir. Dylech ei gwneud yn glir hefyd os ydynt yn deillio o ddarlithoedd. Mae'n bwysig peidio â honni bod y gwaith yn wreiddiol os nad yw hynny'n wir, a dylech nodi'n gyffredinol o ble y daw'r wybodaeth.*

- *Wrth reswm, ni ddisgwylir dyfyniadau llawn mewn arholiadau amseredig nas gwelir o flaen llaw ond dylech nodi eich dyled yn gyffredinol a phriodoli unrhyw ddyfyniadau yr ydych wedi llwyddo i'w cofio.*

Y rheol aur yw: **'os nad ydych yn siŵr, nodwch y cyfeiriadau'**. Cysylltwch â'ch tiwtoriaid os cewch broblemau, yn enwedig o ran y dull o gyfeirnodi llyfrau ac erthyglau, a allai wahaniaethu o bwnc i bwnc. Ni chosbir unrhyw un am ofyn cyngor ac arweiniad, ond mae cosbau llym am lên-ladrad. Gallai methu â chyfeirnodi olygu yr ystyrir bod eich gwaith wedi'i lên-ladrata.

**Mathau eraill o Arfer Annheg**
Ceir mathau eraill o arfer annheg, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain: creu gwaith mewn grŵp pan mai tasg unigol ydyw (gelwir hyn yn gyd-dwyllo), ffugio data neu wneud honiadau ffug eich bod wedi gwneud ymchwil, defnyddio gwasanaeth banc traethodau, bod â ffynhonnell wybodaeth heb hawl mewn arholiad, cyfathrebu gwaharddedig yn ystod arholiad. Mae'r un rheoliadau, gweithdrefnau a chosbau yn berthnasol i bob math o arfer annheg.

## Y LLYFRGELL AC ADNODDAU DYSGU

Mae cymorth gyda llythrennedd gwybodaeth a sgiliau ymchwil ar gael i'r holl fyfyrwyr i'w cynorthwyo yn eu hastudiaethau. I gael rhagor o fanylion a gwybodaeth gyswllt ewch i wefan y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu sef http://www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/

### Adnabod, cyrchu a gwerthuso adnoddau

- Gwefan y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu
- Catalogau'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu
- Cael mynediad i e-adnoddau a chronfeydd data
- Defnyddio'r Rhyngrwyd at ddibenion academaidd

### Adolygiadau Llenyddiaeth

- Beth yw adolygiad llenyddiaeth
- Sut i wneud adolygiad llenyddiaeth

**Parchu'r Gyfraith**

- Defnyddio gwybodaeth pobl eraill
- Llên-ladrad: beth yw e a sut i'w osgoi
- Hawlfraint
- Defnyddio delweddau, ffilm a sain

**Trefnu a rheoli'ch gwybodaeth**

- Dilyn y datblygiadau yn eich maes pwnc
- Defnyddio offer rheoli gwybodaeth

**Llyfrgellwyr Cynorthwyol / Pwnc**

Mae Llyfrgellwyr Cynorthwyol / Pwnc yn ddolenni cyswllt rhwng myfyrwyr a'r gwasanaeth Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu. Mae croeso i chi gysylltu â Llyfrgellydd os bydd angen help arnoch i ddod o hyd i wybodaeth ar gyfer eich aseiniadau, neu gyngor ynghylch chwilio a dod o hyd i adnoddau print neu electronig yn y llyfrgell a'u defnyddio.

Mae rhagor o fanylion am bob llyfrgell a'u gwybodaeth gyswllt ar gael o wefan y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu sef http://www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/ Hefyd dilynwch ffrydiau Facebook a Twitter y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu am y newyddion diweddaraf, datblygiadau o ran y gwasanaeth a gwybodaeth am adnoddau newydd.

- Llyfrgell Griffith, Dinefwr
- Llyfrgell Owen, Mount Pleasant
- Llyfrgell Ysgol Busnes Abertawe
- Llyfrgell Townhill
- Llyfrgell Caerfyrddin
- Llyfrgell Llambed
- Llyfrgell Llundain

**SGILIAU ASTUDIO**

Bydd pob myfyriwr yn gallu manteisio ar gymorth sgiliau astudio i'w cynorthwyo yn eu hastudiaethau. Mae manylion y ddarpariaeth ar gael o Wasanaethau Myfyrwyr.

Mae'r testunau posibl yn cynnwys:

Datblygu strategaethau astudio effeithiol
Cynllunio ac ysgrifennu aseiniadau
Paratoi cyflwyniadau
Cynllunio ar gyfer seminarau
Paratoi ar gyfer arholiadau

Mae sesiynau galw heibio ynghylch sgiliau astudio ar gael ar gampysau Caerfyrddin a Llambed yn ystod y tymor – nid oes angen apwyntiad. Mae modd hefyd i fyfyrwyr dysgu o bell fanteisio ar y gwasanaeth Sgiliau Astudio o Bell trwy ddefnyddio e-bost, ffôn neu Skype. Gweler tudalennau gwe Gwasanaethau Myfyrwyr am ragor o fanylion:
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/gwasanaethau-proffesiynol/gwasanaethau-myfyrwyr/

## SGILIAU GRADDEDIGION AR GYFER CYFLOGAETH

Ar ôl graddio, bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cychwyn ar broses o chwilio am swydd sy'n talu. Ar un lefel, dylech ystyried eich gyrfa yn y Brifysgol fel paratoad ar gyfer byd gwaith, byd sydd yn gynyddol yn rhoi pwyslais ar hyblygrwydd a'r gallu i addasu i sefyllfaoedd newidiol. Yn y cyd-destun hwn mae Sgiliau Trosglwyddadwy Personol (STP) a Chynllunio Datblygiad Proffesiynol (CDP) wedi dod yn flaenllaw iawn fel nodweddion pwysig mewn graddedigion. Sgiliau a ddatblygir yn ystod astudiaeth academaidd yw STP a gallant fod yn annibynnol ar y ddisgyblaeth dan sylw ac, o ganlyniad, yn drosglwyddadwy a defnyddiol mewn cyd-destunau eraill, gan gynnwys byd gwaith. Proses gynllunio yw CDP lle rydych yn adfyfyrio ar eich cryfderau personol a'u dadansoddi, gan ddynodi meysydd i'w datblygu i'r dyfodol. Dynodwyd pedwar prif gategori o sgiliau: datrys problemau, rheoli/trefnu, gwaith tîm a chyfathrebu. Mae pob Rhaglen Astudio wedi cael ei chynllunio i gynnwys cyfleoedd i chi ennill a datblygu eich sgiliau personol a chynllunio eich datblygiad proffesiynol yn barod ar gyfer graddio. Ceir enghreifftiau isod:

### Datrys Problemau

Dylai cryn dipyn o'ch gwaith yn yr Ysgol hon fod wedi'i ddosbarthu o dan y pennawd hwn. Gallai ofyn i chi:

ddiffinio a dynodi craidd problem
ymchwilio pa adnoddau sydd ar gael i'w datrys
ymholi ac ymchwilio'r adnoddau sydd ar gael
asesu perthnasedd data/gwybodaeth
dadansoddi data/gwybodaeth
gwerthuso data/gwybodaeth
arddangos barn annibynnol ar ddata/gwybodaeth
perthnasu data/gwybodaeth i gyd-destun ehangach
gwerthfawrogi data: dod i gasgliadau ar sail amrywiol ddata cymhleth
trefnu a syntheseiddio data cymhleth a chwbl wahanol
cymhwyso gwybodaeth a damcaniaethau
ystyried strategaethau gwahanol
dangos dull hyblyg/amlbwrpas
defnyddio sgiliau arsylwadol/craff
dangos dyfeisgarwch

### Rheoli/Trefnu

Mae'r pennawd hwn yn gysylltiedig yn y bôn â rheoli amser a gwaith. Mae'n ymwneud â'r gallu i:

ddynodi pa eitemau y mae angen eu gwneud ac o fewn pa raddfa amser
gwerthuso pob eitem
llunio amcanion, gan gadw'r gwerthusiadau hynny mewn cof
cynllunio gwaith i gyrraedd amcanion/targedau
cyflawni gwaith sy'n ofynnol
ymdopi a delio â newid, h.y. eitemau newydd
gwrthsefyll a delio â phwysau
sicrhau bod adnoddau priodol ar gael
trefnu'r adnoddau sydd ar gael
dangos menter
arddangos ymdrech gyson
gwneud penderfyniadau cyflym, priodol

dangos cymhelliad personol
gweithredu cynlluniau a gytunwyd

**Gwaith Tîm**

Mae tiwtorialau a seminarau, ynghyd â dulliau eraill o ddysgu neu asesu, yn rhoi cyfle i ddangos gallu i:

wrando ar eraill
bod yn ymwybodol o'ch perfformiad eich hun
arsylwi ar berfformiad pobl eraill, a defnyddio'r canfyddiadau
dangos pendantrwydd (gosod eich agenda eich hun)
cydweithredu ag eraill
beirniadu'n adeiladol
cynhyrchu syniadau neu gynigion newydd
egluro, profi neu ymchwilio i syniadau neu gynigion pobl eraill
ymhelaethu ar eich syniadau neu'ch cynigion eich hunan/eiddo pobl eraill
crynhoi: casglu syniadau ynghyd

**Cyfathrebu**

Mae'r agwedd hon ar waith academaidd yn ganolog. Mae'n rhoi pwyslais ar rinweddau megis y gallu i:

egluro'n glir
ymdrin yn effeithiol â safbwyntiau croes i'w gilydd
datblygu dadl resymegol
cyflwyno data'n glir ac yn effeithiol
cymryd i ystyriaeth y gynulleidfa/darllenydd mewn araith/gwaith ysgrifenedig
dangos tystiolaeth o osod ffeithiau mewn trefn
rhoi enghreifftiau priodol
dangos brwdfrydedd a diddordeb
dangos ymresymiad beirniadol
defnyddio technegau cyflwyno priodol
cymharu a chyferbynnu'n effeithiol
gwrando a holi pan fo angen
trafod syniadau, cymryd posibiliadau eraill i ystyriaeth

**ARHOLWYR ALLANOL**

Mae gan bob Rhaglen Astudio a addysgir sy'n arwain at ddyfarniad Addysg Uwch gan y Brifysgol neu Brifysgol Cymru o leiaf un Arholwr Allanol. Prif ddibenion system arholwyr allanol y Brifysgol yw sicrhau bod:

- safon pob dyfarniad yn cael ei chynnal ar y lefel briodol;
- safonau perfformiad myfyrwyr yn cymharu â safonau ar raglenni neu bynciau tebyg mewn sefydliadau eraill yn y DU y maent yn gyfarwydd â hwy;
- y prosesau ar gyfer asesu a phennu dyfarniadau'n rhai cadarn ac yn cael eu gweithredu'n deg.

Gall myfyrwyr ofyn am gopi o Adroddiad Arholwr Allanol eu rhaglen astudio ar gyfer y flwyddyn flaenorol trwy gysylltu â'r Cyfarwyddwr Rhaglen.

Yr Arholwr Allanol presennol ar gyfer y Rhaglen Astudio hon yw:

Enw: Mr Allan James

Sefydliad: Wedi ymddeol o Brifysgol Morgannwg

Sylwer na chaniateir i fyfyrwyr gysylltu'n uniongyrchol â'r Arholwr Allanol.

**CWYNION**

Mae gennych hawl i wneud cwyn am unrhyw bryder penodol yn ymwneud â darpariaeth eich Rhaglen Astudio neu wasanaeth academaidd perthynol. Ceir manylion llawn y broses gwynion yn y 'Weithdrefn ar gyfer Cwynion Myfyrwyr' ym Mhennod 13 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd ac mewn dogfennaeth ategol a gyhoeddir yn adran y Swyddfa Academaidd ar wefan y Brifysgol:
http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/gweithdrefnau-ar-gyfer-apeliadau-academaidd-cwynion-ac-achosion-eraill-myfyrwyr/